

CBAC Safon Uwch Y Gyfraith Llyfr 2 – Atebion

Pennod 1: Cyfraith Contract

Gweithgaredd 1.1 Awdurdod cyfreithiol

Awdurdod cyfreithiol	Rheol
<i>adran 9</i>	Rhaid darparu gwasanaethau am bris rhesymol.
<i>adran 10</i>	Nid yw teler annheg yn rhwymo'r defnyddiwr.
<i>adran 11</i>	Hawl gyfreithiol y defnyddiwr i wrthod nwyddau sydd o ansawdd anfoddhaol.
<i>adran 20</i>	Rhaid i nwyddau fod yn addas i'r pwrpas.
<i>adran 23</i>	Rhaid i nwyddau fod o ansawdd boddhaol.
<i>adran 49</i>	Os nad yw gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf, dylai'r masnachwr ail-wneud yr elfen annigonol eto heb gost ychwanegol.
<i>adran 50</i>	Os nad yw'n bosibl ail-wneud y gwasanaeth, gall y defnyddiwr hawlio gostyngiad yn y pris.
<i>adran 51</i>	Rhaid i'r nwyddau fod yn ôl y disgrifiad.
<i>adran 52</i>	Rhaid rhoi cyfle i'r adwerthwr atgyweirio neu gyfnewid unrhyw nwyddau diffygiol y tu allan i'r cyfnod prynu o 30 diwrnod.
<i>adran 55</i>	Rhaid darparu'r gwasanaeth gyda gofal a sgil rhesymol.
<i>adran 56</i>	Mae unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhoi i'r defnyddiwr cyn darparu'r gwasanaeth yn rhwymol.
<i>adran 62</i>	Rhaid darparu gwasanaethau o fewn amser rhesymol.

Gweithgaredd 1.2 Telerau ymhlyg

Senarios byr yw'r rhain lle gall y myfyrwr ddefnyddio'r strwythur NDC (IDA yn Saesneg) i lunio atebion byr gan ddefnyddio'r darpariaethau statudol perthnasol.

Gweithgaredd 1.3 Cwestiwn cymhwyso (*wedi'i gymryd o ddeunyddiau asesu enghreifftiol CBAC*)

1. Daw'r cwestiwn o ddeunydd asesu enghreifftiol CBAC. Cyfeiriwch at <https://www.educas.co.uk/umbraco/surface/blobstorage/download?nodeId=12855>, tudalen 35, i weld cynnwys ymateb enghreifftiol.
2. Defnyddiwch y dull NDC a amlinellwyd yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol sy'n ymdrin â C1 wrth ymateb. Trafodwch gyda chyd-fyfriwr os ydych chi eisiau.

Gweithgaredd 1.4 Cymalau eithrio

Enghraifft	A gafodd y cymal eithrio ei ymgorffori'n llwyddiannus? (Do/Naddo)	Rheswm ac enghraifft/enghreifftiau o achosion
1. Hysbysiad ar y cownter mewn siop.	Do	RHYBUDD RHESYMOL: Rhoddwyd rhybudd ar yr adeg pan gafodd y contract ei lunio. <i>Parker v South Eastern Railway (1877)</i>
2. Hysbysiad mewn contract wedi'i lofnodi.	Do	LLOFNOD: Cafodd hysbysiad ei ymgorffori ni waeth a yw'r partion wedi darllen y telerau neu beidio. <i>L'Estrange v Graucob (1934)</i>
3. Hysbysiad mewn nodyn dosbarthu pan mae'r ddau barti wedi bod yn delio'n rheolaidd ar yr un telerau.	Do	DRWY DREFN FLAENOROL O DDELIO: Rhagdybir bod yr un cymalau eithrio yn gymwys i drafodion dilynol, hyd yn oed os nad oedden nhw wedi cael eu hymgorffori yn yr un ffordd. <i>Spurling v Bradshaw (1956)</i>
4. Hysbysiad wedi'i osod ar wal ystafell wely mewn gwesty.	Naddo	HEB EI YMGORFFORI: Barnwyd bod yr hysbysiad yn rhy hwyr i gael ei ystyried yn rhybudd rhesymol. <i>Olley v Marlborough Court Ltd (1949)</i>
5. Hysbysiad mewn derbynneb.	Naddo	HEB EI YMGORFFORI: Ni fyddai unigolyn rhesymol yn disgwyl iddo gynnwys telerau contract. <i>Chapelton v Barry UDC (1940)</i>
6. Hysbysiad ar gefn tocyn ystafell gotiau.	Do	RHYBUDD RHESYMOL: Rhoddwyd rhybudd ar yr adeg pan gafodd y contract ei lunio. <i>Parker v South Eastern Railway (1877)</i>
7. Hysbysiad ar beiriant ym mynedfa maes parcio.	Do	RHYBUDD RHESYMOL: Rhoddwyd rhybudd ar yr adeg pan gafodd y contract ei lunio. <i>Parker v South Eastern Railway (1877)</i>

Gweithgaredd 1.5: Pwysigrwydd telerau

Teler	Esboniad	Achos(ion) ategol
Amodau	Telerau nad yw'n bosibl eu nodi nes i'r contract gael ei dorri.	<i>Hong Kong Fir v Kawasaki (1962)</i>
Gwarantau	Prif delerau contract. Maen nhw mor bwysig nes byddai peidio â'u cyflawni yn gwneud y contract yn ddiwerth.	<i>Poussard v Spiers & Pond (1976)</i>
Telerau anenwol	Mân delerau contract. Os byddan nhw'n cael eu torri, gall y parti ddwyn achos am iawndal, ond ni all wrthod y contract.	<i>Bettini v Gye (1876)</i>

Gan ddefnyddio'r cod lliw perthnasol, amlygwch pa delerau yn y gosodiad canlynol yw'r **amodau**, y **gwarantau** a'r telerau **anenwol**.

Rydw i'n trefnu bod Jack yn torri fy lawnt bob dydd Mawrth am £20 yr wythnos. Y nos Fawrth yma, byddaf i'n cael barbeciw ar gyfer fy ffrindiau, felly rydw i eisiau i'r ardd edrych yn daclus.

1.1 Cwestiynau cyflym

1. Teler = datganiad sy'n cael ei wneud wrth drafod contract y mae bwriad iddo ddod yn rhan o'r contract, gan rwymo'r partïon iddo. 'Telerau' yw mwy nag un teler. Ymliwiad = datganiad sy'n cael ei wneud wrth drafod contract, heb fwriad iddo fod yn rhan o'r contract.
2. Y rhain yw:
 - Pwysigrwydd y datganiad – *Bannerman v White (1861)*.
 - Gwybodaeth a sgîl yr unigolyn sy'n gwneud y datganiad – *Dick Bentley Productions Ltd v Harold Smith (Motors) Ltd (1965)*.
 - Amseriad y datganiad – *Routledge v McKay (1954)*
3. Mae dehongliad llythrennol yn cael ei ffafrio yn hytrach na synnwyr busnes oherwydd gallai'r iaith gael ei thanbriso fel arall. Os yw un parti wedi cael profiad gwael oherwydd y contract, nid yw hynny'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth eiriad llythrennol y contract.
4. Yn yr achos hwn cyhoeddodd y Goruchaf Lys ganllawiau ar gyfer y gyfraith o ran a yw term yn ymhlyg yn y contract. Roedd yr achos hwn yn gwrthdroi'r profion effeithlonrwydd busnes ac angenrheidiol o ran busnes a gafodd eu gosod yn flaenorol yn achos *Equitable Life Assurance Society v Hyman (2000)*.
5. Gallai'r iawndal ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol gynnwys y canlynol.
 - **Dyddiad prynu:** *Mae a20* yn rhoi hawl gyfreithiol i'r defnyddiwr wrthod nwyddau sydd o ansawdd anfoddfaol, sy'n anaddas i'r diben neu nad ydynt fel y'u disgrifiwyd i gael ad-daliad llawn, ond mae hyn wedi'i gyfyngu i o fewn 30 diwrnod i'w prynu.
 - **30 diwrnod:** *a23* yn darparu bod rhaid i'r defnyddiwr roi un cyfle i'r adwerthwr atgyweirio neu gyfnewid unrhyw nwyddau y tu allan i'r cyfnod o 30 diwrnod. Os nad yw'r ymgais i atgyweirio yn llwyddo, gall y defnyddiwr hawlio ad-daliad neu ostyngiad yn y pris.

- **Chwe mis:** Os oes nam yn cael ei ddarganfod o fewn chwe mis ar ôl prynu, rhagdybir ei fod wedi bod yn bresennol ers y prynu, oni bai bod y manwerthwr yn gallu profi fel arall.
 - **Os yw'r nam yn cael ei ddarganfod** ar ôl chwe mis, mae'r baich ar y defnyddiwr i brofi bod y cynnyrch yn ddiffygiol pan gafodd ei ddosbarthu. Mae gan y defnyddiwr chwe blynedd i gyflwyno hawliad yn y llys mân hawliadau.
6. **a55** – dylai'r masnachwr naill ai ail-wneud yr elfen sy'n annigonol neu ddarparu'r gwasanaeth cyfan eto am ddim cost ychwanegol. **a56** – lle nad oes modd ail-wneud y gwasanaeth, gall y defnyddiwr hawlio gostyngiad yn y pris. Gallai hyn fod hyd at 100% o'r gost gwreiddiol, a dylai'r masnachwr ad-dalu'r defnyddiwr cyn pen 14 diwrnod ar ôl cytuno bod ad-daliad yn ddyledus.
 7. Mae'r rhain fel a ganlyn.
 - Disgrifiad o'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r cynnwys digidol, gan gynnwys pa mor hir bydd rhaid i'r defnyddiwr ymrwymo.
 - Cyfanswm pris y nwyddau, gwasanaethau neu'r cynnwys digidol, neu sut bydd y pris yn cael ei gyfrifo.
 - Unrhyw gostau dosbarthu ychwanegol a chostau eraill.
 8. Mae hawliau canslo yn fwy hael o dan y Ddeddf hon na phetai'r nwyddau wedi cael eu prynu mewn siop:
 - **Dyddiad prynu:** mae'r hawl i ganslo yn dechrau'r funud mae'r defnyddiwr yn cyflwyno ei archeb ac yn gorffen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'n derbyn y nwyddau.
 - **14 diwrnod:** Mae gan y defnyddiwr 14 diwrnod ychwanegol i ddychwelyd y nwyddau at y masnachwr.
 - **28 diwrnod:** Mae gan y masnachwr 14 diwrnod ychwanegol arall i roi ad-daliad o'r dyddiad y mae'n derbyn y nwyddau neu o'r dyddiad y mae'r defnyddiwr yn darparu tystiolaeth ei fod wedi dychwelyd y nwyddau.
 9. Drwy lofnod: *L'Estrange v Graucob (1934)*. Drwy rybudd rhesymol: *Parker v South Eastern Railway (1877)*. Drwy drefn flaenorol o ddelio: *Spurling v Bradshaw (1956)*.
 10. Mae'r Ddeddf hon yn rheoliad statudol ar gymalau eithrio a chyfyngu ar gyfer contractau sydd heb ymwneud â defnyddwyr yn unig (contractau busnes i fusnes).
 11. Mae gwarant yn un o fân delerau contract; mae torri gwarant yn rhoi hawl i'r parti diniwed siwio am iawndal yn unig.

Gweithgaredd 1.6 Beth yw camliwio?

Ystyr camliwio yw ...	Enghreifftiau o achosion
... datganiad o ffaith/ffeithiau perthnasol ...	<i>Bisset v Wilkinson (1927)</i> <i>Edgington v Fitzmaurice (1885)</i>
... a wneir gan un parti mewn contract i'r parti arall i'r contract ...	<i>Peyman v Lanjani (1985)</i>
... yn ystod y negodi sy'n arwain at lunio'r contract ...	<i>Roscorla v Thomas (1842)</i>
... a fwriadwyd i weithredu, ac a wnaeth weithredu, fel cymhelliad ...	<i>JEB Fasteners Ltd v Marks Bloom & Co Ltd (1983)</i> <i>Attwood v Small (1838)</i>
...o dan y contract, ac a oedd yn anwir neu wedi'i ddatgan yn anghywir.	<i>Couchman v Hill (1947)</i>

Gweithgaredd 1.7 Mathau o gamliwio

1. **Math o gamliwio:** Anfwriadol.
2. **Math o gamliwio:** Esgeulus.
3. **Math o gamliwio:** Twyllodrus.
4. **Math o gamliwio:** Twyllodrus (os yn wir).

Gweithgaredd 1.8 Mead v Babington (2007)

1. Os yw'r partïon yn dymuno i'r datganiad fod yn rhan o'r contract, rhaid iddo gael ei ymgorffori. Mae hyn yn fater syml os yw'n cael ei ysgrifennu yn y contract, ond gall fod yn fwy cymhleth os nad yw hyn yn digwydd. Gall datganiadau sy'n arwain at gontract fod yn ymliwiadau a wnaed gyda'r bwriad o berswadio'r llall i lunio'r contract. Os oes gwybodaeth neu sgiliau arbenigol gan yr unigolyn sy'n gwneud y datganiad, bydd y llysoedd yn fwy parod i'w dehongli fel telerau yn hytrach nag ymliwiadau. Y mwyaf o amser sy'n mynd heibio rhwng gwneud y datganiad a chwblhau'r contract, y lleiaf tebygol yw hi y bydd y llysoedd yn ystyried y datganiad yn un o'r telerau.
2. Nac oedd.
3. Oedd.
4. Oedd.
5. Gallai'r ail ddatganiad fod yn ddiniwed neu'n esgeulus, gan fod y gwerthwr tai wedi gweld y datblygwr Sbaenaidd wrth ei waith ac roedd hawl ganddo ei dderbyn ar ei olwg. Gallai hyn gael ei weld fel camliwio anfwriadol felly.
Mae'r trydydd datganiad yn fwyaf tebygol o fod yn gamliwio esgeulus, 'brolio gwag'.

Gweithgaredd 1.9 Enghreifftiau o gwestiynau senario problem

Dim atebion ar gael.

Gweithgaredd 1.10 Camliwio a gorfodaeth economaidd

Dim atebion ar gael.

1.2 Cwestiynau cyflym

1. Datganiad anwir mewn contract sy'n gallu golygu bod modd dirymu'r contract.
2. Datganiad o ffaith/ffeithiau perthnasol, a wneir gan un parti mewn contract i'r parti arall, yn ystod y negodi sy'n arwain at lunio'r contract, a fwriadwyd i weithredu, ac a wnaeth weithredu, fel cymhelliad i'r parti arall ymrwymo i'r contract, ac a oedd yn anwir neu wedi'i ddatgan yn anghywir.
3. Rhwymedïau:
 - lawndal yn ôl mesur cyfraith camwedd o esgeuluster.
 - lawndal o dan **a2(1) Deddf Camliwio 1967**.
 - Rhwymedi ecwitiol dadwneuthuriad.
4. Anfwriadol, esgeulus a thwyllodrus.
5. Pedwar ffactor:
 - A wnaeth yr unigolyn sy'n honni iddo gael ei orfodi brotestio?
 - A oedd unrhyw ddull gweithredu arall ar gael iddo?
 - A gafodd gyngor annibynnol?
 - Ar ôl llunio'r contract, a wnaeth gymryd camau i osgoi ei gyflawni?
6. Mae'n dirymu'r contract a gall yr hawlydd ddileu'r contract neu geisio iawndal.
7. Ddim o anghenraid. Mae'n anodd profi rhai achosion o gamliwio, a dylai unrhyw gymalau contract sy'n eithrio atebolrwydd am gamliwio neu sy'n cyfyngu ar rwymedïau gael eu profi o ran eu rhesymoldeb.
8. Nid yw distawrwydd (peidio â sôn am rywbeth) fel arfer yn cael ei weld fel datganiad anwir, ond byddai rhoi gwybodaeth gamarweiniol yn ddatganiad anwir. Os bydd unrhyw newid yn yr amgylchiadau y mae'r contract yn dibynnu arnyn nhw, ac ni fydd un parti yn dweud wrth y parti arall, gallai hyn gael ei ystyried yn gamliwio.
9. Nid yw datganiad o ffaith/ffeithiau perthnasol yn farn neu ddatganiad o fwriad ar gyfer y dyfodol yn unig.
10. Mae pwysau eithafol yn gwneud contract yn anymarferol yn fasnachol.

Pennod 2: Cyfraith Trosedd

Gweithgaredd 2.1 Actus reus llofruddiaeth

Mae rhywun yn cyfrif fel bod dynol pan all fodoli yn **annibynnol** ar ei fam. Felly, gall rhywun sy'n lladd plentyn yn y groth fod yn atebol yn droseddol o dan y gyfraith, ond nid am drosedd lladdiad. Mae llawer o ddadlau ynghylch ystyr 'marw', ond mae'n ymddangos bod y llysoedd yn ffafrio'r diffiniad bod yr '**ymennydd** yn farw'. Cadarnhawyd hyn yn achos **R v Malcherek and Steel (1981)**.

Yna mae'n rhaid profi bod y diffynnydd wedi achosi'r farwolaeth mewn ffaith ac mewn cyfraith. Yr enw ar y rhain yw achosiaeth ffeithiol ac achosiaeth gyfreithiol.

Mae achosiaeth ffeithiol yn cael ei phenderfynu drwy ddefnyddio'r prawf '**pe na bai**'. Mae'r prawf hwn yn gofyn 'pe na bai' am ymddygiad y diffynnydd, a fyddai'r dioddefwr wedi **marw** pan wnaeth, ac fel y gwnaeth? Os 'na' yw'r ateb, yna bydd y diffynnydd yn atebol am y farwolaeth. Mae'r prawf hwn yn cael ei ddangos yn achos **R v White**, lle **gwenwynodd** y diffynnydd ei fam ond bu hi farw o drawiad ar y galon cyn i'r gwenwyn gael amser i weithio. Nid oedd y diffynnydd yn atebol am ei marwolaeth.

Rhan arall o achosiaeth ffeithiol yw'r rheol **de minimis**. Mae'r prawf hwn yn mynnu bod rhaid i'r anaf gwreiddiol a achoswyd gan weithred y diffynnydd fod yn fwy na **mân** achos marwolaeth. Yr achos enghreifftiol yw **R v Pagett**, lle roedd gweithred y diffynnydd yn fwy na mân achos marwolaeth, er bod yr **heddlu** wedi saethu bwledi rhwng yr amser pan wnaeth y diffynnydd saethu a marwolaeth y dioddefwr.

Mae achosiaeth gyfreithiol yn gofyn ai'r anaf gwreiddiol ar adeg y farwolaeth yw achos **weithredol** a **sylweddol** y farwolaeth o hyd. Mae hyn yn cael ei ddangos yn achos **R v Smith**, lle cafodd milwr oedd wedi'i drywanu ei ollwng ddwywaith wrth gael ei gludo i'r ysbyty. Yna roedd oedi cyn iddo weld meddyg, a chafodd driniaeth feddygol wael yn dilyn hyn. Roedd y llys o'r farn nad oedd y ffactorau eraill hyn yn ddigon i **dorri**'r gadwyn **achosiaeth**. Adeg y farwolaeth, y clwyf gwreiddiol oedd 'achos gweithredol a sylweddol y farwolaeth' o hyd. Roedd canlyniad gwahanol yn achos **R v Jordan**, lle roedd y clwyf gwreiddiol bron â gwella. Yr enw ar weithred sy'n torri'r gadwyn achosiaeth yw actus **novus interveniens**.

Rhan arall o achosiaeth gyfreithiol yw prawf y 'benglog denau'. Ystyr hyn yw bod rhaid i ddiffynnydd gymryd ei dioddefwr fel y **mae**. Felly os yw'r dioddefwr yn marw o ganlyniad i ryw gyflwr corfforol anarferol neu annisgwyl neu gyflwr arall, y diffynnydd, er hynny, sy'n dal yn gyfrifol am ei farwolaeth. Dangosir hyn yn achos **R v Blaue**. Yn yr achos hwn, trywanodd y diffynnydd fenyw a oedd yn digwydd bod yn Dyst Jehofa. Oherwydd ei chredoau, gwrthododd hi gael **trallwysiad gwaed** a fyddai wedi achub ei bywyd. Dadleuodd y diffynnydd na ddylai ef fod yn gyfrifol am ei marwolaeth, gan y gallai'r trallwysiad fod wedi achub ei bywyd, ac roedd hi wedi ei wrthod. Anghytunodd y llys, gan ddweud bod rhaid iddo gymryd ei dioddefwr fel y mae.

Gweithgaredd 2.2 Croesair *mens rea* llofruddiaeth

I Lawr

1. carcharaoes
2. GBH
3. bronysicr
4. meddwleuog

Ar Draws

5. malaisbwriadus
6. anuniongyrchol
7. cynorthwyohunanladdiad
8. Moloney
9. Woollin
10. rhagfwriad

Gweithgaredd 2.3 Diwygio a beirniadu euogfarnau am lofruddiaeth

Beirniadaethau

1. Y ddedfryd **orfodol** o garchar am oes.
2. Dim diffiniad pendant o'r adeg pan fydd '**marwolaeth**' yn digwydd.
3. Mae bwriad yn cynnwys bwriad o achosi **niwed corfforol difrifol** ond mae'r euogfarn yr un peth (**llofruddiaeth**).
4. Dim diffiniad pendant o fwriad. Problemau yn ymwneud â **bwriad** anuniongyrchol.
5. Achosion yn ymwneud ag **ewthanasia**.

Cynigion ar gyfer diwygio

Mae'r rhain wedi cael eu cynnig gan **Gomisiwn y Gyfraith**.

1. Tair **gradd** o laddiad: llofruddiaeth y radd gyntaf, llofruddiaeth yr ail **radd** a **dynladdiad**.
2. Ddedfrydau gwahanol ar gyfer y tair gradd: **orfodol** o garchar am oes am lofruddiaeth, a dedfryd **ddewisol** o garchar am oes am y ddwy radd arall.
3. Rhoi'r gorau i ddefnyddio cyfraith gwlad i ymdrin â bwriad, a defnyddio diffiniad **statudol** yn ei lle. Byddai hyn yn rhoi eglurder wrth ystyried bwriad anuniongyrchol a'r prawf '**bron yn sicr**'.

Gweithgaredd 2.4 Dynladdiad gwirfoddol

Colli rheolaeth: *a54 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009*

Elfen	Esboniad	Enghraifft o achos
Colli hunanreolaeth	<p>Rhaid bod y diffynnydd wedi colli hunanreolaeth ar adeg yr actus reus. Nid oes rhaid i'r colli rheolaeth yma fod yn sydyn, sy'n golygu na fydd menywod gydag ymateb 'arafach' (slow burn) yn cael eu trin yn llai teg.</p> <p>Gall colli hunanreolaeth dros amser fod yn bosibl.</p>	<i>R v Dawes, Hatter and Bowyer (2013)</i>
Sbardun cymwys	<p><i>a55 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009</i> – mae'r Ddeddf hon yn awgrymu y gall hyn fod 'oherwydd ofn trais difrifol gan y dioddefwr'.</p> <p>Mae hwn yn gysyniad newydd i amddiffyn menywod sy'n dioddef trais domestig parhaus gan bartneriaid treisgar, neu berchennog tŷ sy'n amddiffyn ei eiddo drwy ladd lleidr.</p> <p>Mae'r prawf yn oddrychol, hynny yw, rhaid ystyried sut mae'r <i>diffynnydd</i> ei hun yn ofni'r trais difrifol, ac nid sut byddai'r unigolyn rhesymol neu rywun arall yn ei sefyllfa yn ei ofni. Awgrymwyd, fodd bynnag, bod rhaid i'r dioddefwr fod yn destun y trais, a bod rhaid i'r diffynnydd ofni bod y trais wedi'i anelu ato ef/hi.</p> <p>Rhaid bod pethau o natur ddifrifol iawn wedi cael eu dweud neu eu gwneud, gan achosi i'r diffynnydd deimlo gyda chyfiawnhad ei fod wedi cael cam difrifol.</p> <p>Mae hon yn ymagwedd gyfyngedig, oherwydd er bod yr ymdeimlad o gael cam yn oddrychol, rhaid cyfiawnhau hyn. Mae hwnnw'n brawf gwrthrychol, ac yn un y gall rheithgor yn unig ei bennu.</p>	Yn achos <i>R v Clinton, Parker and Evans (2012)</i> , cadarnhaodd y Llys Apêl fod hyn yn gofyn am werthusiad gwrthrychol.
A fyddai person rhesymol arall wedi gweithredu yn yr un modd?	<p>Mae'r prawf gwrthrychol hwn yn gofyn a fyddai unigolyn o'r un rhyw a'r un oedran â'r diffynnydd, gyda lefel gyffredin o oddefgarwch a hunanreolaeth wedi gweithredu yn yr un ffordd â'r diffynnydd neu mewn ffordd debyg iddo o dan yr un amgylchiadau (<i>a54(1)(c)</i>).</p>	<p>Mae'r amddiffyniad newydd fel petai wedi dilyn achos <i>A-G for Jersey v Holley (2005)</i> gan fod y canllaw yn <i>a54(1)(c)</i> yn awgrymu bod yr amddiffyniad ar gael yn unig os gallai person o oedran a rhyw y diffynnydd, gyda graddfa normal o oddefgarwch a than yr un amgylchiadau â'r diffynnydd, fod wedi ymateb yn yr un modd â'r diffynnydd.</p>

Cyfrifoldeb lleihaedig: *a52 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009*

Elfen	Esboniad	Enghraifft o achos
Annormaledd gweithredu meddyliol	Cred rhai pobl na fydd rhai o'r 'annormaleddau meddwl' o dan y gyfraith flaenorol yn llwyddo o dan yr amddiffyniad newydd. Byddai hynny oherwydd nad ydyn nhw'n gyflyrau meddygol sy'n cael eu cydnabod.	Mae'n debyg byddai <i>R v Martin (Anthony) (2001)</i> wedi llwyddo o dan yr amddiffyniad hwn, gan fod y diffynnydd yn dioddef o anhwylder personoliaeth paranoid pan laddodd rywun oedd wedi torri i mewn i'w gartref.
Deillio o gyflwr meddygol cydnabyddedig	Diffiniad cul yw hwn ond mae'n ymagwedd fwy modern o lawer sy'n ystyried dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl.	Mae'n debyg byddai <i>R v Martin (Anthony) (2001)</i> wedi llwyddo o dan yr amddiffyniad hwn, gan fod y diffynnydd yn dioddef o anhwylder personoliaeth paranoid pan laddodd rywun oedd wedi torri i mewn i'w gartref.
Rhaid i'r annormaledd gweithredu meddyliol fod yn ffactor arwyddocaol a gyfrannodd at y lladd	Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r annormaledd achosi'r lladd, neu o leiaf fod yn ffactor arwyddocaol sy'n cyfrannu ato.	Petai achos <i>R v Dietschmann (2003)</i> yn cael ei benderfynu o dan yr amddiffyniad newydd, nid yw'n glir a fyddai'r achos wedi mynd heibio'r rhwystr cyntaf o gydnabod iselder fel cyflwr meddygol. Ond mae'n ymddangos nad oes ots a yw diod neu gyffuriau yn rhan o'r mater; y cwestiwn allweddol yw: a yw'r cyflwr meddygol yn drechol na hynny ac a yw'n cyfrannu'n arwyddocaol at y lladd?
Rhaid bod yr annormaledd gweithredu meddyliol wedi amharu'n sylweddol ar allu'r diffynnydd i ddeall natur ei ymddygiad; neu lunio barn resymegol; neu arfer hunanreolaeth	Mae hon yn elfen llawer mwy penodol o'r drosedd, ac mae'n gwneud yn glir pa agweddau ar y gweithredu meddyliol mae'n rhaid effeithio arny'n nhw.	Cafodd y gair 'sylweddol' ei ystyried yn achos <i>R v Golds (2014)</i> .

Gweithgaredd 2.5 Dynladdiad drwy ddehongliad (dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon a pheryglus)

Actus reus dynladdiad drwy ddehongliad yw gweithred anghyfreithlon, yn hytrach nag **anwaith** yn unig (**R v Lowe**). Hefyd, rhaid i'r weithred fod yn un droseddol yn hytrach nag un **sifil**, fel y penderfynwyd yn achos **R v Franklin**. Rhaid i'r weithred fod yn beryglus hefyd, yn ôl safonau'r 'unigolyn **rhesymol**'. Cafodd hyn ei benderfynu yn achos **R v Church**.

Rhaid bod gan y diffynnydd yr un wybodaeth â pherson sobr a rhesymol. Yn achos **R v Dawson**, dyn 60 oed gyda chyflwr difrifol ar ei galon oedd y dioddefwr. Doedd dim posibl i'r diffynnyddion na rhywun sobr a rhesymol wybod hyn. Felly, doedd y weithred ddim yn **gallu** bod yn beryglus. Ond yn achos **R v Watson**, roedd y dioddefwr yn ddyn 87 oed. Barnodd y llys y dylid disgwyl, o fewn rheswm, i'r diffynnyddion wybod y byddai'r dyn yn fregus ac yn hawdd ei ddychryn; felly roedd y weithred **yn** un beryglus.

Yna, rhaid sefydlu mai'r weithred anghyfreithlon a pheryglus oedd **achos** y farwolaeth. Os bydd y dioddefwr yn ymyrryd yn y gadwyn achosiaeth drwy weithred **wirfoddol**, yna bydd hyn yn ddigon i **dorri**'r gadwyn achosiaeth – er enghraifft, yn **R v Cato**. Y *mens rea* ar gyfer y drosedd hon yw *mens rea* y weithred **anghyfreithlon**. Er enghraifft, os oedd y weithred anghyfreithlon yn dod o **a18 Deddf Troseddau Corfforol 1861**, yna **bwriad** fyddai'r *mens rea*.

Gweithgaredd 2.6 Chwilair dynladdiad drwy esgeuluster difrifol

O	U	J	R	P	T	I	F	G	W	I	R	J	C	B	A	P	T	D	P
R	I	S	G	O	F	A	R	W	O	L	A	E	T	H	J	U	R	E	J
U	T	U	T	F	W	R	P	R	Y	A	J	F	G	G	J	R	D	S	G
L	L	T	B	I	B	M	J	R	O	H	Y	W	B	I	G	E	I	J	E
F	J	J	J	G	I	P	O	T	O	T	R	T	U	N	A	T	F	B	T
D	D	Y	G	E	T	E	H	T	S	E	A	N	A	H	R	S	R	N	T
E	G	W	Y	D	D	O	R	Y	C	Y	M	Y	D	O	G	U	I	P	L
H	E	G	D	I	F	A	T	E	R	W	C	H	B	J	U	L	F	U	S
O	K	A	M	O	D	A	J	O	J	F	H	B	Y	G	B	U	O	W	H
N	L	H	M	Y	P	T	M	T	U	P	A	G	C	L	S	E	L	R	B
W	G	J	M	B	Y	F	S	I	O	H	T	R	M	Y	O	G	W	I	G
L	A	F	O	G	D	D	Y	W	S	T	E	L	Y	D	C	S	G	G	T
A	O	T	B	P	T	U	L	R	D	D	E	H	B	G	O	E	H	P	E

Gweithgaredd 2.7 Pa drosedd? Paratoi i gymhwyso

Senario enghreifftiol 1

Person / digwyddiad	Trosedd	<i>Actus reus</i>	<i>Mens rea</i>	Achosion	Amddiffyniad posibl neu faterion eraill (e.e. achosiaeth)
Mae David yn taro Maria mor galed ag y gall, gan ei tharo'n anymwybodol	Llofruddiaeth	Marwolaeth Bod dynol Achosiaeth	Malais bwriadus – bwriad o ladd neu achosi niwed corfforol difrifol	<i>AG Ref no 3 1994</i> <i>Malcherek v Steel</i> <i>R v White</i> <i>R v Jordan</i> <i>R v Pagget</i>	Cadwyn achosiaeth Gweithred sy'n parhau Un gyfres o ddigwyddiadau
Mae'n rhoi pentwr o garpiau ar dân i ladd Maria ond mae'n gwneud i hyn edrych fel tân bwriadol	Dynladdiad gweithred anghyfreithlon	Trosedd anghyfreithlon (tân bwriadol)	<i>Mens rea</i> y drosedd honno	<i>R v Smith</i>	<i>Novus actus interveniens</i>
Damwain ambiwlans	A yw'n torri'r gadwyn achosiaeth (<i>novus actus interveniens</i>) ac yn lleihau atebolrwydd David am niwed corfforol difrifol? Annhebygol	amh.	amh.	<i>R v Kennedy No 2 (2007)</i> <i>R v Roberts</i>	Adeg y farwolaeth, ai'r clwyf gwreiddiol oedd 'achos gweithredol a sylweddol y farwolaeth' o hyd?

Defnyddiwch y tablau ar y dudalen nesaf i ymateb mewn ffordd debyg i senarios enghreifftiol 2 a 3.

Senario enghreifftiol 2

Person / digwyddiad	Trosedd	<i>Actus reus</i>	<i>Mens rea</i>	Achosion	Amddiffyniad posibl neu faterion eraill (e.e. achosiaeth)

Senario enghreifftiol 3

Person / digwyddiad	Trosedd	<i>Actus reus</i>	<i>Mens rea</i>	Achosion	Amddiffyniad posibl neu faterion eraill (e.e. achosiaeth)

2.1 Cwestiynau cyflym

1. Mae ar gael i unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o lofruddiaeth yn unig ac mae'n lleihau'r cyhuddiad i ddynladdiad.
2. Carchar gorfodol am oes.
3. Lladd bod dynol yn anghyfreithlon o dan heddwch y Frenhines. Achosiaeth ffeithiol a chyfreithiol.
4. Lle maen nhw'n bodoli'n annibynol ar eu mam (*AG's Reference No 3 of 1994*).
5. ***Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009***.
6. Holl elfennau llofruddiaeth ynghyd â dyletswydd gofal, torri'r ddyletswydd honno drwy esgeuluster difrifol, risg marwolaeth.
7. Beth bynnag yw *mens rea* y drosedd a ystyrir yn 'weithred anghyfreithlon'.
8. Prawf 'bron yn sicr' – *R v Woolin*.
9. Ymhlith y prif broblemau sy'n ymwneud â'r gyfraith ar laddiad mae'r canlynol.
 - Y ddedfryd orfodol o garchar am oes.
 - Dim diffiniad pendant o'r adeg pan fydd 'marwolaeth' yn digwydd.
 - Mae bwriad yn cynnwys bwriad o achosi niwed corfforol difrifol, ond mae'r euogfarn yr un peth (llofruddiaeth).
 - Dim diffiniad pendant o fwriad. Problemau yn ymwneud â bwriad anuniongyrchol.
 - Achosion yn ymwneud ag ewthanasia.
10. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith bapur ymgynghorol yn 2005 o dan y teitl 'A New Homicide Act for England and Wales?' i adolygu cyfraith llofruddiaeth. Mae'r Swyddfa Gartref yn ystyried ei gynigion ar hyn o bryd.
 - Cynigir y dylid cael tair gradd o laddiad.
 - Dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio cyfraith gwlad i ymdrin â bwriad, a defnyddio diffiniad statudol yn ei lle. Byddai hyn yn newid y gyfraith ychydig o *R v Woollin* oherwydd bydd y rheithgor yn gallu defnyddio bwriad fel rhan o gyfraith gadarnhaol, ac nid rhan o'r dystiolaeth yn unig.
 - Roedd cynnig hefyd i ddileu'r ddedfryd orfodol o garchar am oes. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio wrth ymdrin ag achosion lle'r oedd yr amddiffyniadau yn cael eu cymhwyso yn rhy drugarog, er mwyn rhoi disgrisiwn i'r barnwr wrth ddedfrydu'r diffynnydd. Nid yw'r llywodraeth yn awyddus i ddiddymu'r ddedfryd orfodol o garchar am oes, ac mae'r diwygiad hwn yn annhebygol o ddigwydd.

Gweithgaredd 2.8 *Actus reus* dwyn – 'perchnogi'

Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn ***a3(1) Deddf Dwyn 1968***:

'Mae unrhyw **ragdybiaeth** gan unigolyn o hawliau **perchennog** yn gyfystyr â pherchnogi, ac mae hyn yn cynnwys pan fydd wedi cael gafael ar yr eiddo yn (**ddiniwed** neu beidio) heb ei ddwyn, unrhyw ragdybiaeth ddiweddarach o hawl iddo drwy ei **gadw** neu ei drin fel ei berchennog.'

Ystyr hyn yw bod y diffynnydd wedi mynd ati'n gorfforol i gymryd gwrthrych oddi wrth ei berchennog (er enghraifft, bag llaw neu gyfrifiadur tabled). Mae'r diffynnydd yn **rhagdybio rhai neu'r cyfan o'i hawliau**. Mae'r agwedd hon wedi cael ei dehongli yn eang ac mae'n cynnwys rhagdybio unrhyw un o hawliau'r perchennog (e.e. symud, **cyffwrdd**, dinistrio neu werthu. Mewn geiriau eraill, mae'r diffynnydd

yn gwneud rhywbeth â'r eiddo sy'n hawl i'r perchennog a neb arall ei wneud heb ganiatâd y perchennog ('**bwndel** o hawliau'). Mae un hawl yn ddigonol, fel sydd i'w weld yn **R v Morris (1923)**, pan newidiodd y diffynnydd label y pris ar eitem, gyda'r bwriad o dalu'r pris **llai**. Er na lwyddodd i gyrraedd y til, roedd y ffaith iddo newid y pris a rhoi'r nwyddau yn ei droli yn cael ei ystyried yn weithred o '**berchnogi**', gan fod gan berchennog hawl i brisio ei nwyddau ei hun.

Mae Adran 3(1) hefyd yn ymdrin â sefyllfaoedd lle nad yw rhywun yn dwyn eiddo (e.e. mae rhywun yn cael benthyg breichled gan ei ffrind) ond yna mae'n rhagdybio hawliau'r perchennog drwy wrthod ei ddychwelyd. Mae'r 'perchnogi' yn digwydd unwaith y bydd yr unigolyn yn penderfynu ei **gadv**.

Gall perchnogi ddigwydd hyd yn oed os yw'r dioddefwr yn cydsynio i'r eiddo gael ei gymryd, fel yn achos **Lawrence v MPC (1972)**. Cafodd yr egwyddor hon ei dilyn yn achos **R v Gomez (2000)**.

Yn achos **R v Hinks (2000)**, cadarnhawyd cyhuddiad y diffynnydd o ddwyn, er mai rhodd a gafodd, gan fod y diffynnydd wedi 'perchnogi' yr arian. Mantais y rheol hon yw ei bod yn amddiffyn pobl sy'n **agored i niwed**.

Gweithgaredd 2.9 *Actus reus* dwyn – 'eiddo'

Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn **a4 Deddf Dwyn 1968**:

'Mae eiddo yn cynnwys arian a phob eiddo arall, yn eiddo tirol neu bersonol, gan gynnwys pethau mewn achos a mathau eraill o eiddo anghyffwrdd.

Gall diffinio 'eiddo' ymddangos yn hawdd ar yr olwg gyntaf, ond mae'n rhaid ystyried rhai materion yn fwy manwl.

Pethau sy'n gallu cael eu dwyn

Mae'r pethau canlynol yn cael eu cyfrif yn eiddo:

- **Arian** (ei fodolaeth materol yn hytrach na'i werth).
- Eiddo personol.
- **Eiddo tirol**.
- Pethau mewn achos.

Mae **eiddo tirol** yn cynnwys tir ac adeiladau, er bod **a4(2)** yn datgan nad yw fel arfer yn bosibl dwyn tir a phethau sy'n ffurfio rhan o'r tir ac sy'n cael eu **torri** oddi wrtho (e.e. blodau, cnydau a gasglwyd), ac eithrio yn yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi yn **a4(2)**.

Ystyr eiddo anghyffwrdd yw eiddo haniaethol sydd ddim yn bodoli mewn ystyr **diriaethol**, fel patent neu hawlfraint.

Mae '**peth mewn achos**' (neu '**chose** mewn achos, o'r Ffrangeg) yn derm technegol am eiddo sydd ddim yn bodoli ar ffurf ddiriaethol neu faterol, ond sy'n rhoi hawliau cyfreithiol gorfodadwy i'r perchennog. Mae enghreifftiau yn cynnwys cyfrif banc mewn credyd lle mae'r banc yn gwrthod rhoi arian y cwsmer iddo, neu fuddsoddiadau, cyfranddaliadau ac eiddo **deallusol** fel hawliau patent. Mae gan bobl hawliau cyfreithiol dros y pethau hyn, er nad ydyn nhw'n gallu gafael ynddyn nhw â'u dwylo.

Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi penderfynu nad yw rhai pethau yn 'eiddo' yn ôl y diffiniad hwn. Yn **Oxford v Moss (1979)**, cadarnhaodd y llys nad oedd edrych ar gwestiynau papur arholiad heb ei agor yn gyfystyr â dwyn, gan nad oedd y cwestiynau yn 'eiddo' ond yn hytrach yn '**wybodaeth**'.

Mae **trydan** yn cael ei drin ar wahân o dan y Ddeddf. Mae'n cael ei ystyried yn eiddo anghyffwrdd sydd ddim yn gallu cael ei ddwyn. Ond os bydd rhywun (**a11**) 'yn defnyddio trydan yn anonest a heb awdurdod, neu yn peri i drydan gael ei **wastraffu** neu ei ddargyfeirio mewn ffordd anonest', gall fod yn gyfrifol am gyflawni trosedd.

Pethau sydd ddim yn gallu cael eu dwyn

Mae'r pethau sydd ddim yn gallu cael eu dwyn wedi eu nodi yn adrannau **4(3)** a **4(4)** y Ddeddf, gan ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn casglu madarch, blodau, ffrwythau neu ddail sy'n tyfu'n **wyllt** ar dir. Nid yw hyn i gael ei drin fel achos o ddwyn oni bai iddo gael ei wneud i werthu neu ennill gwobr neu unrhyw bwrpas masnachol arall (**a4(3)**). Mae **Adran 4(4)** yn ymwneud ag anifeiliaid gwyllt, wedi eu dofi neu heb eu dofi.

Fel arfer, nid yw'n bosibl dwyn corff dynol. **Yn achos R v Kelly and Lindsay (1998)**, penderfynodd y llys, er nad yw corff marw yn eiddo fel arfer, y gallai rhannau'r corff yn yr achos hwn fod yn eiddo gan fod 'eu cymeriad sylfaenol a'u **gwerth** wedi newid'.

Gweithgaredd 2.10 Actus reus dwyn – 'yn perthyn i rywun arall'

Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn **a5 Deddf Dwyn 1968**:

*'Ystyrir bod eiddo yn perthyn i unrhyw un sydd â'r eiddo yn ei **feddiant** neu dan ei reolaeth, neu sydd ag unrhyw hawl neu fudd perchnogol drosto.'*

Mae'n cynnwys sefyllfaoedd pan fydd unigolyn yn berchen ar yr eiddo ond hefyd pan fydd ganddo **berchenogaeth neu reolaeth** drosto neu hawl neu fudd **perchnogol drosto**. Mae'n cynnwys eiddo sy'n perthyn i rywun arall o dan **gyfraith sifil** ac mae hefyd yn cwmpasu meddiant yn unig heb hawliau perchenogaeth. Er enghraifft, nid yw siwt briodas wedi'i llogi yn berchen i'r unigolyn sy'n ei llogi, ond mae gan yr unigolyn hwnnw reolaeth o'r siwt ar yr adeg pan fydd yn ei feddiant. Os bydd rhywun yn cymryd y siwt honno gan y llogai (y person a wnaeth ei llogi), gellir dweud ei fod wedi perchnogi'r eiddo sy'n perthyn i'r llogai, er nad y **llogai** sy'n berchen ar y siwt mewn gwirionedd.

Felly, gall rhywun fod yn **atebol am ddwyn ei eiddo ei hun**. Yn achos **R v Turner No.2 (1971)**, roedd Turner wedi mynd â'i gar i'r garej i'w **drwsio**. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, gyrodd y car o'r lle roedd wedi ei barcio y tu allan i'r garej, heb dalu. Roedd y car 'ym meddiant' y garej ar yr adeg pan gymerodd ef y car, ac felly roedd yn **atebol** am ddwyn ei gar ei hun.

Hyd yn oed os yw rhywun yn cael gafael ar eiddo yn gyfreithlon, mae **rhwymedigaeth o hyd i'w ddefnyddio mewn ffordd arbennig** o dan **a5(3)**. Er enghraifft, pe baech chi'n rhoi taliad i'ch darlithydd i brynu llyfr ond bod y darlithydd yn gwario'r arian hwnnw ar daith i'r dosbarth, ni fyddai'r darlithydd wedi 'defnyddio'r arian yn y ffordd gywir', ac felly byddai hyn yn achos o ddwyn.

Beth am sefyllfaoedd lle mae eiddo yn cael ei drosglwyddo i'r diffynnydd drwy **gamgymeriad** – gordaliad cyflog, er enghraifft? Yn ôl **Adran 5(4)**, dylai'r eiddo sy'n cael ei drosglwyddo i'r diffynnydd drwy gamgymeriad gael ei drin fel petai'n 'perthyn' i'r perchennog **gwreiddiol**. Felly, unwaith bydd y diffynnydd yn dod yn ymwybodol o'r camgymeriad ac yn gwrthod dychwelyd yr eiddo, bydd hyn yn achos o ddwyn. Rhaid i'r methiant i ddychwelyd yr eiddo, ar ôl sylweddoli bod camgymeriad wedi ei wneud, fod yn **fwriadol** (gweler **Attorney General's Reference (No 1 of 1983) (1985)**).

Gweithgaredd 2.11 *Mens rea* dwyn

I Lawr

1. anonestrwydd
2. TWOC
3. Genting
4. Velmuyl

Ar Draws

3. Ghosh
5. parhaol
6. goddrychol
7. Lloyd
8. gwefryrru

Gweithgaredd 2.12 *Actus reus* a *mens rea* lladrad

<i>Actus reus</i>	Esboniad gydag awdurdod cyfreithiol i'w gefnogi
Perchnogi	<p>Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn a3(1) Deddf Dwyn 1968:</p> <p><i>'Mae unrhyw ragdybiaeth gan unigolyn o hawliau perchennog yn gyfystyr â pherchnogi, ac mae hyn yn cynnwys pan fydd wedi cael gafael ar yr eiddo (yn ddiniwed neu beidio) heb ei ddwyn, unrhyw ragdybiaeth ddiweddarach o hawl iddo drwy ei gadw neu ei drin fel ei berchennog.'</i></p> <p>Ystyr hyn yw bod y diffynnydd wedi mynd ati'n gorfforol i gymryd gwrthrych oddi wrth ei berchennog (e.e. bag llaw neu gyfrifiadur tabled). Mae'r diffynnydd yn rhagdybio rhai neu'r cyfan o'i hawliau. Mae'r agwedd hon wedi cael ei dehongli yn eang ac mae'n cynnwys rhagdybio unrhyw un o hawliau'r perchennog e.e. symud, cyffwrdd, dinistrio, gwerthu, ac ati. Mewn geiriau eraill, gwneud rhywbeth â'r eiddo sy'n hawl i'r perchennog a neb arall ei wneud heb ganiatâd y perchennog ('bwndel o hawliau'). Mae un hawl yn ddigonol – R v Morris (1923). Yn yr achos hwn, newidiodd y diffynnydd y pris ar eitem, gyda'r bwriad o dalu'r pris is. Er na lwyddodd i gyrraedd y til, roedd y ffaith iddo newid y pris a rhoi'r nwyddau yn ei droli yn cael ei ystyried yn weithred o 'berchnogi', gan fod gan berchennog hawl i brisio ei nwyddau ei hun.</p> <p>Mae Adran 3(1) hefyd yn ymdrin â sefyllfaoedd lle nad yw rhywun yn dwyn eiddo (e.e. mae rhywun yn cael benthg breichled gan ei ffrind) ond yna mae'n rhagdybio hawliau'r perchennog drwy wrthod ei ddychwelyd. Mae'r 'perchnogi' yn digwydd unwaith y bydd yr unigolyn yn penderfynu ei gadw.</p> <p>Gall perchnogi ddigwydd hyd yn oed os yw'r dioddefwr yn cydsynio i'r eiddo gael ei gymryd, fel yn achos Lawrence v MPC (1972).</p> <p>Dyweddodd Is-larlly Dilhorne: 'Drwy hepgor y geiriau hyn (sef 'cydsyniad'), mae'r Senedd wedi cynorthwyo'r erlyniad gan sefydlu bod y weithred o gymryd wedi digwydd heb gydsyniad y perchennog.'</p> <p>Dyweddodd yr Arglywydd Ustus Keith: 'Gall gweithred gael ei hystyried yn "berchnogi" er ei bod yn digwydd gyda chydsyniad y perchennog.' Cafodd yr egwyddor hon ei dilyn yn R v Gomez (2000).</p> <p>Yn R v Hinks (2000), cadarnhawyd cyhuddiad y diffynnydd o ddwyn, er mai rhodd a gafodd, gan fod y diffynnydd wedi 'perchnogi' yr arian. Mantais yr egwyddor hon yw ei bod yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.</p>

Actus reus	Esboniad gydag awdurdod cyfreithiol i'w gefnogi
Eiddo	<p>Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn a4 Deddf Dwyn 1968:</p> <p><i>'Mae eiddo yn cynnwys arian a phob eiddo arall, yn eiddo tirol neu bersonol, gan gynnwys "pethau mewn achos" a mathau eraill o eiddo anghyffwrdd (intangible).'</i></p> <p>Gall diffinio eiddo ymddangos yn hawdd ar yr olwg gyntaf, ond mae'n rhaid ystyried rhai materion yn fwy manwl.</p> <p>Pethau sy'n gallu cael eu dwyn: mae'r pethau canlynol yn cael eu cyfrif yn eiddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arian (ei fodolaeth materol yn hytrach na'i werth). • Eiddo personol. • Eiddo tirol. • Pethau mewn achos. <p>Mae eiddo tirol yn cynnwys tir ac adeiladau, er bod a4(2) yn datgan nad yw fel arfer yn bosibl dwyn tir a phethau sy'n ffurfio rhan o'r tir ac sy'n cael eu torri oddi wrtho (e.e. blodau, cnydau a gasglwyd), ac eithrio yn yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi yn yr adran honno.</p> <p>Ystyr eiddo anghyffwrdd yw eiddo haniaethol sydd ddim yn bodoli mewn ystyr diriaethol, fel patent neu hawlfraint, etc.</p> <p>Mae 'peth mewn achos' (neu "'chose" mewn achos') yn derm technegol ac mae'n disgrifio eiddo sydd ddim yn bodoli ar ffurf ddiriaethol neu faterol, ond sy'n rhoi hawliau cyfreithiol gorfodadwy i'r perchennog, er enghraifft, cyfrif banc mewn credyd (lle mae'r banc yn gwrthod rhoi arian y cwsmer iddo), buddsoddiadau, cyfranddaliadau ac eiddo deallusol fel patentau, etc. Mae gan bobl hawliau cyfreithiol dros y pethau hyn, er nad ydyn nhw'n gallu gafael ynddyn nhw â'u dwylo.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi penderfynu nad yw rhai pethau yn 'eiddo' yn ôl y diffiniad hwn. Yn Oxford v Moss (1979), cadarnhaodd y llys nad oedd edrych ar gwestiynau papur arholiad heb ei agor yn gyfystyr â dwyn, gan nad oedd y cwestiynau yn 'eiddo' ond yn hytrach yn 'wybodaeth'.</p> <p>Mae trydan yn cael ei drin ar wahân o dan y Ddeddf. Mae'n cael ei ystyried yn eiddo anghyffwrdd sydd ddim yn gallu cael ei ddwyn. Ond os bydd rhywun (a11) 'yn defnyddio trydan yn anonest a heb awdurdod, neu yn peri i drydan gael ei wastraffu neu ei ddargyfeirio mewn ffordd anonest', gall fod yn gyfrifol am gyflawni trosedd.</p> <p>Mae rhai pethau sydd ddim yn gallu cael eu dwyn. Mae'r pethau sydd ddim yn gallu cael eu dwyn wedi eu nodi yn adrannau 4(3) a 4(4) y Ddeddf, gan ymdrin â sefyllfaoedd lle mae rhywun yn casglu madarch, blodau, ffrwythau neu ddail sy'n tyfu'n wyllt ar dir. Nid yw hyn i gael ei drin fel achos o ddwyn oni bai iddo gael ei wneud i werthu neu ennill gwobr neu unrhyw bwrpas masnachol arall (a4(3)). Adran 4(4) yn ymwneud ag anifeiliaid gwyllt, wedi eu dofi neu heb eu dofi.</p> <p>Fel arfer, nid yw'n bosibl dwyn corff dynol. Fodd bynnag, yn achos R v Kelly and Lindsay (1998) penderfynodd y llys, er nad yw corff marw yn eiddo fel arfer, y gallai rhannau'r corff yn yr achos hwn fod yn eiddo gan fod 'eu cymeriad sylfaenol a'u gwerth wedi newid'.</p>

Actus reus	Esboniad gydag awdurdod cyfreithiol i'w gefnogi
Yn perthyn i rywun arall	<p>Mae'r elfen hon wedi'i diffinio yn a5 Deddf Dwyn 1968.</p> <p><i>'Ystyrir bod eiddo yn perthyn i unrhyw un sydd â'r eiddo yn ei feddiant neu dan ei reolaeth, neu sydd ag unrhyw hawl neu fudd perchnogol drosto.'</i></p> <p>Mae'n cynnwys sefyllfaoedd pan fydd unigolyn yn berchen ar yr eiddo, ond hefyd pan fydd ganddo berchenogaeth neu reolaeth drosto neu hawl neu fudd perchnogol drosto. Mae'n cynnwys eiddo sy'n perthyn i rywun arall o dan gyfraith sifil, ac mae hefyd yn cwmpasu meddiant yn unig heb hawliau perchenogaeth. Er enghraifft, nid yw siwt briodas wedi'i llogi yn berchen i'r unigolyn sy'n ei llogi, ond mae gan yr unigolyn hwnnw reolaeth o'r siwt ar yr adeg pan fydd yn ei feddiant. Os bydd rhywun yn cymryd y siwt honno gan y llogai (y person a wnaeth ei llogi), gellir dweud ei fod wedi perchnogi'r eiddo sy'n perthyn i'r llogai, er nad y llogai sy'n berchen ar y siwt mewn gwirionedd.</p> <p>Felly, gall rhywun fod yn atebol am ddwyn ei eiddo ei hun (R v Turner No.2 (1971)). Yn yr achos hwn, roedd Turner wedi mynd â'i gar i'r garej i'w drwsio. Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, gyrrodd y car o'r lle roedd wedi ei barcio y tu allan i'r garej, heb dalu. Roedd y car 'ym meddiant' y garej ar yr adeg pan gymerodd ef y car, ac felly roedd yn atebol am ddwyn ei gar ei hun.</p> <p>Hyd yn oed os yw rhywun yn cael gafael ar eiddo yn gyfreithlon, mae rhwymedigaeth o hyd i'w ddefnyddio mewn ffordd arbennig. Adran 5(3): <i>'pan fydd rhywun yn derbyn eiddo gan rywun arall, neu ar ei ran, a'i fod dan ymrwymiad i'r llall i gadw'r eiddo ac ymdrin ag ef neu ei elw mewn ffordd benodol, ystyrir bod yr eiddo yn perthyn i'r llall (yn hytrach nag iddo ef).'</i> Er enghraifft, pe bai chi'n rhoi blaendal i'ch athro i dalu am drip dosbarth ond bod yr athro yn gwario'r arian hwnnw ar set o werslyfrau ar gyfer y dosbarth, ni fyddai'r athro wedi 'defnyddio'r arian yn y ffordd gywir' felly byddai hyn yn achos o ddwyn. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys pethau fel casgliadau elusennol. Yn Hall (1972), dywedodd y Llys Apêl fod pob achos yn dibynnu ar ei ffeithiau. Yn yr achos hwn, doedd dim rhwymedigaeth i ddefnyddio'r blaendal mewn ffordd benodol, gan i'r arian gael ei dalu i mewn i gyfrif cyffredinol.</p> <p>Yn ôl Adran 5(4), dylai'r eiddo sy'n cael ei drosglwyddo i'r diffynnydd drwy gamgymeriad gael ei drin fel petai'n 'perthyn' i'r perchennog gwreiddiol. Felly, unwaith bydd y diffynnydd yn dod yn ymwybodol o'r camgymeriad ac yn gwrthod dychwelyd yr eiddo, bydd hyn yn achos o ddwyn. Rhaid i'r methiant i dychwelyd yr eiddo, ar ôl sylweddoli bod camgymeriad wedi ei wneud, fod yn fwriadol – Attorney General's Reference (No 1 of 1983) (1985).</p>
Grym neu fygwth grym	<p>Yr elfen hon sy'n gwahaniaethu rhwng lladrad a dwyn. Mae enghreifftiau o'r 'grym' hwn yn cynnwys gwthio rhywun er mwyn cymryd bag llaw, taro rhywun er mwyn cymryd ffôn symudol, etc. Mae bygwth grym hefyd yn ddigonol, er enghraifft, chwifio cylllell at rywun a mynnu ei fod yn ildio ei waled. Fodd bynnag, rhaid defnyddio'r grym er mwyn dwyn ac mae'n rhaid iddo ddigwydd yn syth cyn y dwyn neu ar yr un pryd. Unwaith bydd y weithred o ddwyn yn gyflawn, mae hyn yn cyfrif fel lladrad. Cafodd hynny ei gadarnhau yn Corcoran v Anderton (1840). Yn yr achos hwn, ni chafodd y weithred o ddwyn ei chwblhau (daliodd y fenyw ei gafael ar ei bag a wnaeth hi ddim gadael i'r ymosodwyr ei gymryd) felly dim ond ymgais i ladrata oedd hon.</p>

<i>Actus reus</i>	Esboniad gydag awdurdod cyfreithiol i'w gefnogi
Er mwyn dwyn	<p>Mater i'r rheithgor yw penderfynu a oes grym (neu fygwth grym) digonol i ddwyn. Gall gynnwys ychydig iawn o rym, fel yn achos <i>Dawson and James (1976)</i> ac fel y cadarnhawyd yn <i>R v Clouden (1987)</i>.</p> <p>Gall grym gael ei ddefnyddio yn anuniongyrchol yn erbyn y dioddefwr, er enghraifft, os bydd yn cael ei ddefnyddio yn erbyn eiddo. Yn <i>R v Clouden (1987)</i>, roedd y diffynnydd wedi cipio bag siopa o law'r dioddefwr. Roedd yr ymddygiad hwn yn ddigonol i fod yn gyfystyr â grym at ddibenion trosedd lladrata.</p> <p>Ond, pe bai ffôn symudol yn syrthio o law rhywun neu pe bai diffynnydd yn cipio gliniadur oddi ar lin rhywun, efallai na fyddai hynny'n cael ei ystyried yn 'rym' digonol ar gyfer lladrata. Yn <i>P v DPP (2012)</i>, cadarnhaodd y llys na fyddai cipio sigarét o law y dioddefwr yn gyfystyr â defnyddio grym.</p> <p>Nid yw'n ofynnol i'r grym gael ei ddefnyddio – mae ofn grym oherwydd bygythiad neu ystum yn ddigonol. Pe bai rhywun yn dweud 'Mae gen i gyllell, ac mi fydda i'n dy drywanu di os na wnei di roi dy waled i mi', yn ddigonol i greu ofn grym.</p> <p>Mae'n bwysig cofio bod rhaid defnyddio'r grym (neu fygwth ei ddefnyddio) er mwyn dwyn. Er enghraifft, os bydd diffynnydd yn gwtio menyw i'r llawr gan fwrriadu ei threisio, ac mae hi'n cynnig rhoi ei horiawr drud iddo os bydd ef yn peidio. Os bydd yn cymryd yr oriawr, mae wedi defnyddio grym, ac wedi dwyn, ond ni fyddai hyn yn gyfystyr â lladrata. Mae hyn oherwydd i'r grym gael ei ddefnyddio gyda'r bwriad o'i threisio, ac nid er mwyn dwyn.</p>
Yn syth cyn dwyn neu ar yr un pryd	<p>Mae'r cwestiwn ynglŷn ag union ystyr 'yn syth cyn' wedi cael ei drafod yn y llysoedd. Cadarnhaodd y llysoedd yn <i>R v Hale (1979)</i> y gall fod yn achos o ladrad os yw'r weithred o ddwyn yn parhau wrth i'r grym gael ei ddefnyddio. Yn yr achos hwn, gwtiodd dau ddiffynnydd heibio i fenyw gan fynd i mewn i'w thŷ. Rhoddodd un ei law ar ei cheg, ac aeth y llall i fyny'r grisiau a chymryd blwch gemwaith. Cyn iddyn nhw adael y tŷ, fe wnaethon nhw glymu'r fenyw. Barnodd y Llys Apêl fod grym wedi cael ei ddefnyddio (pan roddodd y diffynnydd ei law ar geg y dioddefwr) yn syth cyn y dwyn (cymryd y blwch gemwaith). Roedd y llys hefyd o'r farn y gallai clymu'r fenyw cyn gadael y tŷ gyda'r blwch gemwaith, fel gweithred barhaus, fod yn gyfystyr â grym at ddibenion lladrata. Roedd y 'perchnogi' yn parhau drwy hyn. Cafodd y rhesymeg hon ei dilyn yn achos <i>Lockley (1995)</i>.</p>
Ar unrhyw berson	<p>Does dim rhaid i'r weithred o ddwyn gael ei chyflawni yn erbyn yr unigolyn sy'n cael ei fygwth. Er enghraifft, yn ystod lladrad arfog mewn banc, byddai cwsmer sy'n digwydd bod yn y banc ar y pryd yn ofni bod grym am gael ei ddefnyddio yn ei erbyn; ond byddai'r arian sy'n cael ei ddwyn yn eiddo i'r banc. Byddai hyn yn dal i fod yn achos o ladrata.</p>
<i>Mens rea</i>	Esboniad

<i>Actus reus</i>	Esboniad gydag awdurdod cyfreithiol i'w gefnogi
Bwriad amddifadu'n barhaol	<p>Rhaid bod y diffynnydd yn bwriadu amddifadu'r llall yn barhaol o'r eiddo, dim ots os yw'r llall yn cael ei amddifadu o'r eiddo mewn gwirionedd. Mae hyn wedi'i nodi yn a6 Deddf Dwyn 1968.</p> <p><i>'Ystyrir bod gan rywun ... fwriad o amddifadu'n barhaol ... os yw'n bwriadu trin yr eitem fel ei eiddo ei hun i'w defnyddio heb ystyried hawliau'r llall ... Gall cael benthyg neu roi benthyg ... fod yn gyfystyr â'i drin felly os, a dim ond os, yw'r weithred o gael benthyg neu roi benthyg am gyfnod ac mewn amgylchiadau sy'n cyfateb i ddwyn neu waredu yn gyfan gwbl.'</i></p> <p>Nid yw cael benthyg heb ganiatâd (e.e. cymryd car i wefr-yrru neu 'joyriding') heb fwriad o amddifadu'n barhaol yn cyfrif fel achos o ddwyn. Mae troseddau eraill ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd fel hyn, er enghraifft, trosedd 'cymryd rhywbeth heb gydsyniad'.</p> <p>Mae Adran 6 (1) yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae'r eiddo'n cael ei 'fenthyca' dros dro. Nid yw hyn fel arfer yn achos o ddwyn, gan nad oes bwriad o amddifadu'n barhaol. Ond, yn achos Lloyd (1985), penderfynodd y llys y gallai benthyca gael ei gyfrif o dan a6 os oedd yr eiddo wedi'i fenthyg <i>'nes bod y daioni, y rhinwedd, a'r gwerth ymarferol ... wedi ymadael yn llwyr â'r eitem dan sylw.'</i> Yn yr achos hwn, roedd y diffynnydd, a oedd yn gweithio mewn sinema, wedi cymryd ffilmiau er mwyn creu copïau anghyfreithlon. Dychwelodd y ffilmiau rai oriau yn ddiweddarach, ar ôl cwblhau'r broses gopiö. Yn yr achos hwn, nid oedd 'amddifadu dros dro' wrth gymryd y ffilmiau yn ddigonol i'w gael yn euog o ddwyn.</p> <p>Ond yn achos Velmuyl (1989), cafodd y diffynnydd ei ddyfarnu'n euog ar ôl iddo gymryd arian o sêff ei gyflogwr, heb awdurdod cyfreithlon, a'i fenthyg i'w ffrind, gan fwriadu addalu'r arian y dydd Llun canlynol. Ond bu staff yn gwiro'r sêff ar hap cyn i'r arian gael ei ddychwelyd. Cafodd ei ddyfarnu'n euog o ddwyn ar y sail ei fod yn bwriadu amddifadu'r perchennog yn barhaol o'r union bapurau a darnau arian hynny, er gwaethaf y ffaith ei fod yn bwriadu dychwelyd eitemau o'r un gwerth.</p>

Actus reus	Esboniad gydag awdurdod cyfreithiol i'w gefnogi
<p>Anonestrwydd</p>	<p>Nid yw Adran 2 yn diffinio anonestrwydd, ond mae'n rhoi enghreifftiau o ymddygiad sydd ddim yn anonest. Adran 2(1) 'Anonestrwydd':</p> <p>Os yw rhywun yn perchnogi eiddo sy'n perthyn i rywun arall, ni ddylid ei ystyried yn anonest:</p> <p>(a) os yw'n perchnogi'r eiddo gan gredu bod ganddo hawl cyfreithiol i amddifadu'r llall ohono, ar ei ran ei hun neu ar ran trydydd person; neu</p> <p>(b) os yw'n perchnogi'r eiddo gan gredu y byddai ganddo gydsyniad y person arall, pe bai hwnnw'n gwybod am y perchnogi ac amgylchiadau'r perchnogi; neu</p> <p>(c) (ac eithrio pan gafodd y person yr eiddo fel ymddiriedolwr neu gynrychiolydd personol) os yw'n perchnogi'r eiddo gan gredu nad yw'n bosibl darganfod i bwy mae'r eiddo'n perthyn drwy gymryd camau rhesymol.</p> <p>Adran 2(2): Gall person sy'n perchnogi eiddo sy'n perthyn i rywun arall gael ei ystyried yn anonest, er ei fod yn barod i dalu am yr eiddo.</p> <p>Mae'r holl brofion uchod yn rhai goddrychol, sy'n golygu eu bod yn cael eu penderfynu ar sail yr hyn mae'r diffynnydd yn ei gredu, yn hytrach na'r hyn dylai unigolyn rhesymol ei gredu (gwrthrychol).</p> <p>Os nad yw'r uchod yn berthnasol, dylid defnyddio'r prawf ar gyfer anonestrwydd a amlinellwyd yn R v Ghosh (1982). Hwn yw'r prawf y gall rheithgor ei ddefnyddio i benderfynu beth sy'n gallu cael ei ystyried yn anonestrwydd. Ond cafodd hwn ei ddiwygio yn dilyn achos Ivey v Genting Casinos.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. A yw'r diffynnydd wedi bod yn anonest yn ôl safonau rhywun cyffredin, gonest a rhesymol? 2. Os mai 'ydy' yw'r ateb, a wnaeth y diffynnydd sylweddoli ei fod yn anonest yn ôl y safonau hynny? <p>O dan brawf Ghosh, os oes ateb cadarnhaol i'r ddau gwestiwn uchod, yna gall y diffynnydd fod yn anonest yn ôl y gyfraith. Os oes ateb negyddol i un o'r ddau gwestiwn uchod, nid yw'r diffynnydd yn anonest.</p> <p>Mae ail ran prawf Ghosh bellach yn cael ei ystyried yn gyfraith wael Ivey v Genting Casinos. Erbyn hyn, mae wedi newid i'r canlynol:</p> <p>a yw'r ymddygiad yn anonest yn ôl safonau gwrthrychol pobl resymol a gonest? ac; os ydych wedi ateb 'ydy'</p> <p>a oedd y diffynnydd yn sylweddoli (goddrychol) y byddai'r ymddygiad yn cael ei ystyried yn anonest wrth gael ei farnu yn ôl y safonau hynny?</p>
<p>Bwriad o ddefnyddio grym er mwyn dwyn</p>	<p>Rhaid dangos bod y diffynnydd yn bwriadu defnyddio grym er mwyn dwyn.</p>

Gweithgaredd 2.13 Bwrgleriaeth

Bwrgleriaeth o dan **a9(1)(a)**

Mae rhywun yn euog o fwrgleriaeth o dan **a9(1)(a)** os yw'n mynd i mewn i **adeilad** neu unrhyw **ran** o adeilad, fel tresmaswr, gyda'r **bwriad** o ddwyn, achosi **niwed corfforol difrifol** i unrhyw un yn yr adeilad neu achosi difrod **troseddol**.

Mae tair elfen i'r *actus reus*:

- mynd i mewn
- i adeilad neu ran o adeilad
- fel **tresmaswr**.

Dwy elfen y *mens rea* yw:

- bwriad neu **fyrbyylltra** i dresmasu
- **bwriad dirgel** (bwriad o ddwyn, achosi niwed corfforol difrifol neu ddifrodi'r adeilad neu ei gynnwys).

Bwrgleriaeth o dan **a9(1)(b)**

Mae rhywun yn euog o fwrgleriaeth o dan **a9(1)(b)** os yw, ar ôl mynd i mewn i adeilad neu ran o adeilad fel tresmaswr, yn **ddwyn** neu'n ceisio dwyn unrhyw beth yn yr adeilad, neu'n achosi neu'n **ceisio** achosi niwed corfforol difrifol i unrhyw un y tu mewn iddo.

Mae pedair elfen i'r *actus reus*:


- **mynd i mewn**
- i adeilad neu ran o adeilad
- fel tresmaswr
- *actus reus* dwyn neu niwed corfforol **difrifol**, neu ymgais i ddwyn neu achosi niwed corfforol difrifol y tu mewn iddo

Mae dwy elfen i'r *mens rea*

- bwriad neu fyrbyylltra i dresmasu
- *mens rea* dwyn neu niwed corfforol difrifol, neu **ymgais** i ddwyn / achosi niwed corfforol difrifol y tu mewn iddo.

Y prif wahaniaeth rhwng dwy drosedd bwrgleriaeth, o dan **a9(1)(a)**, yw'r rheidrwydd bod gan y diffynnydd fwriad **wrth** fynd i mewn i'r adeilad, ond o dan **a9(1)(b)**, gall y bwriad o gyflawni'r drosedd ddirgel ddod **wedyn**; gan nad yw bwriad y diffynnydd wrth fynd i mewn i'r adeilad yn berthnasol. Yn ogystal, mae **a9(1)(a)** yn ymdrin â **difrod anghyfreithlon**, ond nid yw **a9(1)(b)** yn gwneud hynny.

Gweithgaredd 2.14 Chwilair *actus reus* bwrgeriaeth



Gair	Diffiniad
Mynd i mewn	Mynd i mewn i rywle
Adeilad	Adeiledd eithaf parhaol. Bydd hefyd yn gymwys i gerbyd neu gwch heb rywun ynddo, ni waeth a ydyn nhw ynddo ai peidio.
Tresmaswr	Rhywun sy'n mynd i mewn i eiddo neu ar dir rhywun yn anghyfreithlon heb ganiatâd.
Effeithiol	Rhaid i'r weithred o fynd i mewn alluogi'r weithred o ddwyn.
Sylweddol	Mwy na mynediad cyfyngedig yn unig.
Dwyn cyflawn	Rhaid bod y dwyn wedi digwydd a rhaid bod y perchennog wedi cael ei amddifadu'n barhaol o'i eiddo.
R v Collins	Cadarnhaodd yr achos hwn fod rhaid 'cael mynediad effeithiol a sylweddol'.
Preswyliedig	Byw yn rhywle neu ei feddiannu.
Llong	Adeiledd neu ran o adeiledd y mae rhywun yn ei feddiannu fel ei gartref neu lety byw arall, er enghraifft, carafan.
Caniatâd	Cael caniatâd i wneud rhywbeth neu i fod yn rhywle.
Mynd y tu hwnt	Mynd y tu hwnt i'r caniatâd a roddwyd.
Walkington	Roedd gan Walkington hawl i fod yn y siop ond nid yn yr ardal y tu ôl i'r cownter. Ar y pwynt hwn, daeth yn dresmaswr.
Dirgel	Y drosedd sy'n digwydd yn y dyfodol; y tu hwnt i'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.
Ymgeisio	Ymgais i gyflawni gweithred droseddol sy'n golygu mwy na pharatoi yn unig ond nad yw'n arwain at gyflawni'r weithred yn llwyddiannus.

Gweithgaredd 2.15 Pa drosedd? Paratoi i gymhwysu

Senario enghreifftiol 2

Defnyddiwch y tabl a'r ateb enghreifftiol isod ar gyfer enghraifft 1.

Person/ digwyddiad	Trosedd	<i>Actus reus</i>	<i>Mens rea</i>

2.2 Cwestiynau cyflym: dwyn

1. Perchnogi, eiddo, yn perthyn i rywun arall.
2. Anonestrwydd, bwriad o amddifadu'n barhaol.
3. Newidiodd yr ail ran i gynnwys prawf gwrthrychol.
4. Defnyddio grym.
5. Y prif wahaniaeth rhwng dwy drosedd bwrgleriaeth, o dan **a9(1)(a)**, yw'r rheidrwydd bod gan y diffynnydd fwriad pan fydd yn mynd i mewn i'r adeilad, ond o dan **a9(1)(b)** gall y bwriad o gyflawni'r drosedd ddirgel ddod wedyn, gan nad yw bwriad y diffynnydd wrth fynd i mewn i'r adeilad yn berthnasol. Yn ogystal, mae **(a)** yn cwmpasu difrod anghyfreithlon ond nid yw (b).
6. Ydy. Mae trydan yn cael ei drin ar wahân o dan y Ddeddf. Mae'n cael ei ystyried yn eiddo anghyffwrdd sydd ddim yn gallu cael ei ddwyn. Ond os bydd rhywun **(a11)** 'yn defnyddio trydan yn anonest a heb awdurdod, neu yn peri i drydan gael ei wastraffu neu ei ddargyfeirio mewn ffordd anonest', gall fod yn gyfrifol am gyflawni trosedd.
7. Gallai materion gynnwys y canlynol.
 - Geiriau a ddefnyddir yng ngyfraith dwyn – e.e. perchnogi, eiddo, yn perthyn i rywun arall.
 - Diwygiad i ail ran prawf **Ghosh**.
 - Lladrad – materion yn ymwneud â maint y grym.
 - Dim gwahaniaeth rhwng mathau o ladrad.
 - Naid yn y ddedfryd ar gyfer bwrgleriaeth.
 - Mwy o achosion o ladrad.
 - Bwrgleriaeth – geiriau a ddefnyddir yn y drosedd e.e. mynd i mewn, tresmaswr, adeilad, dim diffiniad clir.
8. Gallai diwygiadau awgrymedig gynnwys y canlynol.
 - Mae'r prawf yn ymwneud ag anonestrwydd dwyn wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar yn **Ivey v Genting Casinos**.
 - Dylai lladrad gael gwahanol raddfeydd a dedfrydau.
 - Gellid diweddarau a mireinio'r Ddeddf Dwyn gan roi gwell diffiniad o'r termau allweddol.
 - Adroddiad Comisiwn y Gyfraith 2002 ar droseddau eiddo.

Gweithgaredd 2.16 Cymhwyso amddiffyniadau at senarios problemau

Gorffwylledd

- Mae'n bosibl i ddiffynnydd (D) hawlio amddiffyniad gorffwylledd. Mae'r meini prawf wedi'u pennu gan gyfraith achosion: mae rheolau **M'Naghten** yn nodi, ar adeg cyflawni'r weithred, 'bod y parti sydd wedi'i gyhuddo yn gweithredu o dan y fath reswm **diffygiol**, wedi'i achosi gan **afiechyd** meddwl, nes nad oedd yn gwybod beth oedd natur ac ansawdd y weithred; neu, os oedd yn gwybod y pethau hynny, nad oedd yn gwybod bod yr hyn roedd yn ei wneud yn anghywir'.
- Yr elfen gyntaf yw **rheswm diffygiol**, sef y rheidrwydd bod pwerau rhesymu'r diffynnydd yn ddiffygiol, a hynny ar y sail na all eu defnyddio, yn hytrach na dewis peidio â'u defnyddio yn unig. Nid yw **dryswch** neu anghofrwydd dros dro yn gyfystyr â rheswm diffygiol, fel yn achos **Clarke**.
- Yn y senario hwn, mae'r D yn dangos yn glir bod ei allu i resymu yn ddiffygiol

oherwydd **[rhowch dystiolaeth o'r senario]**.

- Mae'r ail elfen, 'afiechyd meddwl', yn ddiffiniad **cyfreithiol**, yn hytrach nag un meddygol. Mae'r gyfraith yn ystyried a all y D gael ei ddal yn atebol am ei weithred, yn hytrach nag ystyried ei gyflwr meddygol.
- Mae'n rhaid i afiechyd meddwl fod yn gorfforol, ac nid yn afiechyd a gafodd ei achosi gan ffactorau **allanol**, e.e. cyffuriau.
- Yn y senario hwn, gall **[rhowch dystiolaeth o'r senario]** y D gael ei ystyried yn 'afiechyd meddwl', fel yn achos **Burgess/ Sullivan/Kemp/ Hennessey**.
- Yr elfen olaf yw bod rhaid profi nad oedd y D yn gwybod beth oedd natur/ansawdd ei ymddygiad, neu roedd yn gwybod beth roedd yn ei wneud ond heb wybod ei fod yn anghywir yn ôl y gyfraith. Yma, mae'r D yn **[rhowch dystiolaeth o'r senario]**. Felly gallwn weld bod y D yn gwybod beth oedd natur/ansawdd ei weithred, fel sydd i'w weld yn achos **Windle**, lle dywedodd y D 'Mae'n siŵr y byddaf yn cael fy nghrogi am hyn'.
- Yn achos gorffwylledd, mae baich y prawf yn gorwedd ar yr **amddiffyniad** i brofi bod y D yn dioddef o orffwylledd ar adeg y drosedd, ar sail **tebygolrwydd**. Felly, mae'n debygol / annhebygol y bydd y D yn gallu profi gorffwylledd, a bydd yn cael ei ystyried yn 'ddieuog ar sail gorffwylledd', ac yn cael rheithfarn arbennig. **[Rhowch dystiolaeth o'r senario.]**

Awtomatiaeth

- Mae'n bosibl y gall y D hawlio amddiffyniad awtomatiaeth. Cafodd hyn ei ddiffinio yn **Bratty** fel 'gweithred a wneir gan y cyhyrau heb unrhyw reolaeth gan y meddwl.'
- Mae **dwy** elfen i'r amddiffyniad hwn. Yr elfen gyntaf yw'r rheidrwydd bod y D wedi colli pob rheolaeth wirfoddol, a bod hyn wedi cael ei achosi gan ffactor **allanol**.
- Yma, mae'r D **[rhowch dystiolaeth o'r senario]**, sy'n dangos ei fod wedi colli rheolaeth wirfoddol. Rhaid colli rheolaeth yn llwyr, fel sydd i'w weld yn **AG Ref No2 1992**, lle nad oedd y D yn gallu defnyddio awtomatiaeth, oherwydd bod y ffaith ei fod yn gyrru yn golygu nad oedd wedi colli rheolaeth yn llwyr.
- Yn y senario, gallem ddweud bod gweithredoedd y D yn rhai hunan-gymhellol, oherwydd roedd y D yn gwybod y byddai ei ymddygiad yn debygol o arwain at awtomatiaeth. Fel yn achos **Bailey**, lle roedd y D wedi bod yn fyrbwyll, yma hefyd mae'r D wedi **[rhowch dystiolaeth o'r senario]**.
- Cafodd / ni chafodd awtomatiaeth D ei achosi gan ffactorau allanol oherwydd **[rhowch dystiolaeth o'r senario]**, ac felly byddai'n gallu / ni fyddai'n gallu pledio amddiffyniad awtomatiaeth.

Hunanamddiffyniad ac atal trosedd

- Mae'n bosibl gall y D ddefnyddio amddiffyniad hunanamddiffyn. Mae dau fath – hunanamddiffyniad ac **atal trosedd** – o dan **adran 3 Deddf Cyfraith Trosedd 1967**. Er mwyn i'r amddiffyniad fod yn gymwys, rhaid i'r D fodloni dwy elfen; yn gyntaf, a oedd y grym yn **angenrheidiol** ac yn ail, a oedd yn **rhesymol**. Rhaid i'r erlyniad brofi y tu hwnt i bob amheuaeth naill ai nad oedd y D yn gweithredu mewn hunanamddiffyniad, neu bod y grym yn ormodol.
- Bydd rheithgor yn penderfynu a oedd y grym yn angenrheidiol ar sail y ffeithiau. Fodd bynnag, fel yn achos **Hussain**, lle roedd yr ymosodwr yn rhedeg

i ffwrdd, mae grym yn annhebygol o fod yn angenrheidiol. Yn y senario, [rhowch dystiolaeth o'r senario], felly gallwn ddweud bod y grym / nad oedd y grym yn angenrheidiol.

- Pan fydd y D wedi gwneud camgymeriad, bydd y rheithgor yn penderfynu a oedd grym yn angenrheidiol dan yr amgylchiadau, os oedd y D yn credu yn onest mai felly roedden nhw, fel sydd i'w weld yn *Williams*. Yn y senario hwn, [rhowch dystiolaeth o'r senario], felly gallwn ddweud bod y grym / nad oedd y grym yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau.
- Gall y D ddibynnu ar yr amddiffyniad hyd yn oed os yw wedi ymosod gyntaf, fel sydd i'w weld yn *AG No2 1993*. [Rhowch dystiolaeth o'r senario]
- Mae *a76/77 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008* yn ystyried a yw'r grym a ddefnyddiwyd yn rhesymol a heb fod yn ormodol. Mae'n egluro na fydd rhywun sy'n gweithredu at ddiben cyfreithlon o bosibl yn gallu penderfynu'n union pa gamau sy'n angenrheidiol. Yn y senario hwn, gallai'r grym gael ei ystyried yn rhesymol/ormodol, [rhowch dystiolaeth o'r senario], fel yn achos *Clegg/Martin*.
- Felly, byddai/ni fyddai'r D yn gallu pledio amddiffyniad hunanamddiffyn.

Meddwdod

- Mae'n bosibl y gall y D ddefnyddio amddiffyniad meddwdod oherwydd [rhowch dystiolaeth o'r senario.]
- Gall meddwdod fod yn *wirfoddol* neu'n *anwirfoddol*. Meddwdod gwirfoddol yw pan fydd y D yn dewis cymryd sylwedd meddwol. Meddwdod anwirfoddol yw sefyllfa lle nad yw'r D yn gwybod ei fod yn cymryd sylwedd meddwol, gan gynnwys cymryd cyffuriau presgripsiwn sy'n gwneud rhywun yn feddw yn annisgwyl. Yn y senario hwn, gall y meddwdod gael ei ystyried yn wirfoddol/anwirfoddol oherwydd [rhowch dystiolaeth o'r senario].
- Mewn sefyllfa lle'r oedd y D wedi meddwi o'i wirfodd ac wedi ei gyhuddo o drosedd bwriad *penodol*, gall meddwdod gwirfoddol negyddu unrhyw *mens rea* os oedd y D mor feddw nes nad oedd wedi ffurfio'r *mens rea* ar gyfer y drosedd. Yma, [rhowch dystiolaeth o'r senario], fel yn achos *Sheehan and Moore*, lle roedd y Diffynyddion yn rhy feddw i ffurfio'r bwriad o achosi anaf corfforol difrifol neu lofruddiaeth, felly doedden nhw ddim yn euog o lofruddiaeth. Ond os yw'r D wedi ffurfio'r *mens rea* er ei fod yn feddw, mae'n dal i fod yn euog.
- Mewn sefyllfa lle roedd y D wedi meddwi o'i wirfodd ac wedi ei gyhuddo o drosedd bwriad *sylfaenol*, nid yw meddwdod yn amddiffyniad o dan y penderfyniad yn achos *Majewski* oherwydd bod y D wedi ymddwyn yn fyrbwyll drwy feddwi. Y byrbwylltra hwn yw'r bwriad ar gyfer trosedd bwriad sylfaenol. Felly ni all y D ddibynnu ar yr amddiffyniad hwn. Yma, [rhowch dystiolaeth o'r senario].
- Mewn sefyllfa lle'r oedd y D wedi meddwi o'i wirfodd, ond bod ganddo'r *mens rea* angenrheidiol wrth gyflawni'r drosedd, bydd yn euog, fel sydd i'w weld yn *Kingston*. Mae hyn oherwydd nad yw cyflwr meddw'r D wedi effeithio ar ei allu i ffurfio *mens rea*.

Gweithgaredd 2.17 Gorffwylledd ac awtomatiaeth

Tynnwch linellau i gysylltu'r achosion â'r ffeithiau cywir.

<i>R v Clarke (1972)</i>	Roedd culhau'r rhydweliâu o fewn rheolau gorffwylledd, oherwydd bod ei gyflwr yn effeithio ar ei resymu meddyliol, ei gof a'i ddealltwriaeth.
<i>R v Kemp (1956)</i>	Fe wnaeth diffynnydd anafu ei gariad pan oedd ef yn cysgu. Roedd hyn o fewn y diffiniad o orffwylledd gan ei fod yn achos mewnol.
<i>R v Sullivan (1984)</i>	Roedd person diabetig wedi anghofio cymryd ei inswlin, ac roedd hyn o fewn y diffiniad o orffwylledd.
<i>R v Hennessy (1989)</i>	Nid yw anghofrwydd neu ddryswch syml ddim yn gyfystyr â gorffwylledd.
<i>R v Burgess (1991)</i>	Roedd y diffynnydd yn dioddef o anhwylder meddyliol a lladdodd ei wraig, ond cyfaddefodd ei fod yn gwybod bod yr hyn roedd wedi ei wneud yn gyfreithiol anghywir.
<i>R v Quick (1973)</i>	Cafodd diffynnydd oedd wedi anafu ei ffrind yn ystod ffit epileptig ei ystyried yn orffwyll, oherwydd roedd y diffiniad yn cynnwys unrhyw afiechyd organig neu swyddogaethol, hyd yn oed pan oedd hynny dros dro.
<i>R v Windle (1952)</i>	Roedd person diabetig heb fwyta ar ôl cymryd ei inswlin – doedd hyn ddim yn cael ei gyfri'n orffwyll oherwydd bod yr achos yn allanol.

Gweithgaredd 2.18 Cyfraith achosion awtomatiaeth

Ymchwiliwch i'r achosion, a chwblhewch y tabl i ddangos sut mae'r gyfraith yn cael ei chymhwyso.

Achos	Ffeithiau	Penderfyniad/Pwynt cyfreithiol
1. Rhaid colli rheolaeth yn llwyr		
<i>Broome v Perkins (1987)</i>	Cafodd gyrrwr diabetig ei gyhuddo o yrru heb ofal a sylw dyledus ar ôl iddo ddechrau gyrru'n awtomatig a byrbwyll o ganlyniad i'w gyflwr.	Cafodd awtomatiaeth ei gwrthod fel amddiffyniad oherwydd bod y gyrrwr wedi gallu rheoli ei gar am sawl milltir.
<i>Attorney-General's Ref No. 2 1992</i>	Bu gyrrwr lorri mewn gwrthdrawiad a lladdodd dau o bobl. Ei amddiffyniad oedd awtomatiaeth oherwydd dywedodd fod ei ymennydd wedi diffodd ar ôl gyrru pellter mawr ar ffyrdd anniddorol.	Ni chafodd 'gyrru heb ymwybyddiaeth' ei dderbyn fel awtomatiaeth, gan fod yn rhaid bod y gyrrwr wedi cadw rhywfaint o reolaeth dros ei gerbyd i yrru mor bell.

Achos	Ffeithiau	Penderfyniad/Pwynt cyfreithiol
2. Rhaid bod achos yr awtomatiaeth yn allanol		
<i>Hill and Baxter (1958)</i>	Bu'r diffynnydd mewn gwrthdrawiad, a honnodd ei fod wedi cael ei daro gan salwch dirgel.	'Ni ddylai rhywun fod yn atebol i gyfraith trosedd os... bydd yn mynd yn anymwybodol wrth yrru, heb fod unrhyw fai arno ef ei hun. Er enghraifft, rhywun sy'n cael ei daro gan garreg neu sy'n cael ei daro'n wael yn sydyn, neu sy'n colli rheolaeth dros y car dros dro gan fod haid o weny yn ymosod arno.'
<i>R v T (1990)</i>	Roedd diffynnydd a gyhuddwyd o ladrad arfog ddim yn gallu cofio manylion ei throsedd. Yn ddiweddarach canfuwyd ei bod hi wedi cael ei threisio dridiau yn gynt a chafodd ddiagnosis o anhwylder pryder ôl-drawmatig. Cyflwynodd amddiffyniad o awtomatiaeth heb fod yn orffwyll.	Derbyniwyd y gall straen eithriadol fod yn ffactor allanol a all achosi awtomatiaeth, er na lwyddodd yr amddiffyniad yn yr achos hwn.
3. Mae awtomatiaeth drwy hunan-gymhelliad yn amddiffyniad i droseddau bwriad penodol, ond nid rhai bwriad sylfaenol		
<i>Bailey (1983)</i>	Roedd y diffynnydd diabetig mewn cyflwr hypoglycemig gan ei fod wedi cymryd ei inswlin ond heb fwyta. Yna, ymosododd ar gariad newydd ei gyn-gariad â bar haearn.	Barnwyd ei fod yn gwybod am y peryglon, gan ei fod wedi bod yn teimlo'n sâl, felly cafodd ei weithredoedd eu hystyried yn fyrbwyll. Doedd dim digon o dystiolaeth i ddefnyddio amddiffyniad awtomatiaeth yn llwyddiannus.
4. Os nad yw'r diffynnydd yn gwybod bod ei weithredoedd yn debygol o arwain at gyflwr o awtomatiaeth, nid yw wedi ymddwyn yn fyrbwyll a gall ddefnyddio amddiffyniad awtomatiaeth		
<i>Hardie (1984)</i>	Roedd y diffynnydd wedi cymryd Valium. Byddai hyn fel arfer yn ei dawelu, ond yn hytrach cafodd effaith wahanol iawn gan ei gynhyrfu, a rhoddodd fflat ei gyn-gariad ar dân.	Cafodd ganiatâd i ddefnyddio amddiffyniad awtomatiaeth, gan ei fod wedi credu y byddai'r Valium yn ei dawelu – sef ei effaith arferol – ac felly nid oedd wedi bod yn fyrbwyll.

Gweithgaredd 2.19 Senarios awtomatiaeth

A yw'r diffynnyddion yn gallu dibynnu ar awtomatiaeth fel amddiffyniad? Cyfeiriwch at achosion perthnasol yn eich atebion.

<p>1. Mae Lucy yn seiclo adref o'r gwaith un diwrnod, ac yna mae cangen yn disgyn o goeden ac yn ei tharo ar ei phen. Mae hi'n dioddef cyfergyd (<i>concussion</i>), ac yn hytrach na dal i fynd ar hyd y ffordd, mae hi'n seiclo i mewn i siop brysur, gan achosi difrod i'r siop.</p>
<p>Achos: <i>Hill and Baxter (1958)</i></p>
<p>Cymhwys: Roedd achos awtomatiaeth Lucy yn allanol, felly gellid dadlau nad yw hi ar fai am ei hymddygiad o ganlyniad i'w hanafiadau.</p>
<p>2. Mae John yn cymryd rhai tabledi cysgu i'w helpu i gael noson dda o gwsg. Mae'n deffro yn y bore ar ben car ei gymydog. Yn ystod y nos mae wedi crafu bonet y car gydag allwedd.</p>
<p>Achos: <i>Hardie (1984)</i></p>
<p>Cymhwys: Gallai John gael yr hawl i ddefnyddio amddiffyniad awtomatiaeth gan fod y tabledi cysgu wedi cael effaith wahanol i'r hyn roedd yn ei ddisgwyl.</p>
<p>3. Mae gan Anna diabetes. Pan mae lefel y siwgr yn ei gwaed yn anghyson, mae hi'n cael damwain yn ei char ac yn taro golau stryd.</p>
<p>Achos: <i>Broome v Perkins (1987)</i></p>
<p>Cymhwys: Mae diabetes yn cael ei ystyried yn ffactor mewnol, ac nid yw hyn yn gymwys i awtomatiaeth. Gellid dadlau hefyd y byddai lefel siwgr isel yn y gwaed yn achosi iddi golli rheolaeth yn rhannol yn unig, gan fod Anna wedi gallu gyrru ei char hyd at yr adeg hwnnw.</p>

Gweithgaredd 2.20 Ffactorau allweddol gorffwylledd

1. Mae ar gael i bob trosedd ac eithrio troseddau atebolwydd caeth.
2. Y rhagdybiaeth sylfaenol yw bod pob unigolyn yn ei iawn bwyll.
3. Mae'r baich o brofi gorffwylledd ar y diffynnydd (neu'r amddiffyniad).
4. Os bydd tystiolaeth o orffwylledd y diffynnydd yn dod i'r amlwg yn ystod y treial, yna gallai'r barnwr neu hyd yn oed yr erlyniad godi'r mater.
5. Mae'r diffynnydd yn ddieuog oherwydd gorffwylledd.
6. ***Deddf Treialon Gwallgofiaid 1883.***
7. Roedd obsesiwn Daniel M'Naghten â Phrif Weinidog Prydain, Robert Peel, wedi datblygu i'r fath raddau nes iddo benderfynu ei saethu. Methodd, gan saethu a lladd ysgrifennydd y Prif Weinidog, Edward Drummond, yn Ile Peel. Barnwyd bod M'Naghten yn dioddef o baranoia eithafol, a'i ganfod yn ddieuog ar sail gorffwylledd.

Y dyfyniad pwysig o'r achos yw 'ei fod yn gweithredu o dan y fath reswm diffyngol, wedi ei achosi gan afiechyd meddwl, nes nad oedd yn gwybod beth oedd natur ac ansawdd ei weithred, neu os oedd yn gwybod hynny, nad oedd yn gwybod bod yr hyn roedd yn ei wneud yn anghywir.'

8. 1. Rheswm diffygiol. 2. Afiechyd meddwl. 3. Heb wybod natur ac ansawdd y weithred, neu heb wybod bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn anghywir.
9. Mae'n golygu nad yw'r diffynnydd yn gallu rhesymu o gwbl. Os yw'r diffynnydd yn gallu rhesymu ond nid yw'n defnyddio'r gallu hynny, yna nid yw hyn yn orffwylledd.
10. Cafodd Clarke ei gyhuddo o ddwyn o archfarchnad, ond dywedwyd ei bod hi'n ymddwyn yn anghofus oherwydd iselder a diabetes, felly doedd ganddi ddim *mens rea* ar gyfer ei gweithredoedd. Dywedodd y llys nad yw rheolau gorffwylledd yn gymwys i'r rhai sy'n dal i fod â gallu i resymu, ond eu bod heb ei ddefnyddio ar adegau o ddryswch neu anghofrwydd.

Gweithgaredd 2.21 Afiechyd meddwl

Kemp (1956)

Mae'r achos hwn yn dangos nam corfforol fel 'afiechyd meddwl' yn y gyfraith ar orffwylledd. Roedd y diffynnydd wedi gweithredu yn groes i'w gymeriad drwy ymosod ar ei wraig â morthwyl. Gwelwyd bod cyflwr meddygol wedi effeithio ar ei ymennydd ac felly ar ei allu i resymu, felly cyfeiriodd y barnwr y rheithgor tuag at amddiffyniad gorffwylledd, nid awtomatiaeth.

Sullivan (1984)

Ciciodd dyn ei ffrind yn ei ben yn ystod ffit epileptig a chafodd ei gyhuddo o ymosod. Cafodd hyn ei wrthod gan fod y barnwr yn ystyried epilepsi fel afiechyd meddwl oherwydd amharwyd ar allu meddyliol y diffynnydd yn ystod ffit, gan achosi rhesymu diffygiol gan nad oedd yn gwybod beth roedd yn ei wneud.

Hennessy (1989)

Cafodd dyn ei gyhuddo o yrru'n beryglus mewn car roedd wedi ei ddwyn ond yn ddiweddarach llewygodd y dyn a chafodd ei gludo i'r ysbyty. Roedd yn ddiabetig ac nid oedd wedi cymryd ei inswlin am sawl diwrnod ar ôl i'w wraig ei adael. Er iddo ddefnyddio amddiffyniad awtomatiaeth, dywedodd y barnwr y dylai fod wedi defnyddio amddiffyniad gorffwylledd. Cafodd ei euogfarn ei chadarnhau oherwydd bod ei ymddygiad wedi cael ei achosi gan ffactor mewnol diabetes ac nid ffactor allanol chwistrelliad inswlin.

Burgess (1991)

Roedd dyn wedi ymosod ar wraig pan oedd yn cerdded yn ei gwsg. Cafwyd ef yn euog oherwydd gorffwylledd. Apeliodd, gan fod yn well ganddo amddiffyniad awtomatiaeth heb fod yn orffwyll, ond ni chafodd yr apêl ei ganiatáu. Dywedodd yr Arglwydd Brif Ustus Lane: 'Rydym yn derbyn bod cwsg yn gyflwr normal, ond mae'r dystiolaeth yn yr achos hwn yn dangos nad yw cerdded yn eich cwsg, a thrais yn eich cwsg, yn normal.' Felly roedd yn afiechyd meddwl.

Gweithgaredd 2.22 Hunanamddiffyniad a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

Gallai trafodaeth o'r cwestiynau hyn gynnwys y pwyntiau canlynol:

A oedd grym yn angenrheidiol ac a oedd y grym yn rhesymol?

Mae'r is-adrannau hyn o **adran 76 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008** yn ymwneud â'r cwestiwn goddrychol ynghylch a oedd grym rhesymol yn angenrheidiol at ddibenion hunanamddiffyniad.

(3) Mae'r cwestiwn ynghylch a oedd graddfa'r grym a ddefnyddiwyd gan y diffynnydd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i gael ei benderfynu gan gyfeirio at yr amgylchiadau roedd y diffynnydd yn credu oedd yn bodoli, ac mae **is-adrannau (4) i (8)** hefyd yn gymwys mewn cysylltiad â phenderfynu ar y cwestiwn hwnnw.

(4) Os yw'r diffynnydd yn honni bod ganddo gred benodol o ran bodolaeth unrhyw amgylchiadau. (a) mae pa mor rhesymol neu beidio yw'r gred honno yn berthnasol wrth ofyn a oedd y D yn credu hynny mewn gwirionedd; ond (b) os penderfynir bod y diffynnydd yn credu hynny mewn gwirionedd, mae ganddo hawl i ddibynnu ar y gred honno at ddibenion **is-adrannau (3)**, ni waeth a oedd (i) yn anghywir, ai peidio neu (ii) (os oedd yn anghywir) roedd y camgymeriad yn un rhesymol iddo ei wneud.

(5) Ond nid yw is-adrannau **(4)(b)** yn galluogi'r diffynnydd i ddibynnu ar unrhyw gamgymeriad y gellir ei briodoli i feddwdod a gafodd ei achosi yn wirfoddol.

Mae graddfa'r grym a ddefnyddir mewn hunanamddiffyniad yn cael ei farnu'n wrthrychol. Nid yw'n hawdd ei fesur – h.y. does dim fformiwla i ddweud bod y grym hwn yn ormodol neu'n ddigonol.

Mae'r is-adrannau hyn o **adran 76 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008** yn ymwneud â'r cwestiwn gwrthrychol ynghylch a oedd y grym yn rhesymol.

(6) Ni ddylai graddfa'r grym a ddefnyddiwyd gan y diffynnydd gael ei ystyried yn rhesymol yn yr amgylchiadau roedd y diffynnydd yn credu oedd yn bodoli, os oedd y grym yn anghymesur i'r amgylchiadau hynny.

(7) Wrth benderfynu ar y cwestiwn y cyfeirir ato yn is-adrannau (3), rhaid ystyried yr ystyriaethau canlynol (i'r graddau eu bod yn berthnasol i amgylchiadau'r achos): (a) efallai na fydd unigolyn sy'n gweithredu at ddiben dilys yn gallu penderfynu'n fanwl pa gamau yn union sy'n angenrheidiol; a (b) os oes tystiolaeth bod rhywun wedi gwneud yr hyn roedd yn ei ystyried, yn onest ac yn reddfol, yn angenrheidiol at ddiben dilys yn unig, mae hynny'n dystiolaeth gref mai camau rhesymol yn unig a gymerodd yr unigolyn at y diben hwnnw.

Mae **adran 76(7)** yn amlinellu rhai ffactorau i'w hystyried:

- Wrth weithredu am reswm dilys (gydag esgus y gellir ei gyfiawnhau) nid yw bob amser yn bosibl cyfrifo lefel y grym cyn i chi ei ddefnyddio.
- A yw'r unigolyn wedi 'gwneud yr hyn roedd yn ei ystyried, yn onest ac yn reddfol' oedd yn angenrheidiol? A gafodd y weithred ei chyflawni i ddirymu bygythiad neu at ryw ddiben arall?

Mae'r rheoliad yn **Williams** yn rhan o'n cyfraith statud erbyn hyn. Mae **adran 76 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008** yn nodi y gall grym gael ei ystyried yn rhesymol yn yr amgylchiadau 'drwy gyfeirio at yr amgylchiadau

roedd y diffynnydd yn credu oedd yn bodoli'. Os yw'r diffynnydd wedi gwneud 'camgymeriad', gall ddal i ddefnyddio'r amddiffyniad, os yw'r barnwr yn cytuno ei fod yn gamgymeriad y byddai unigolyn rhesymol yn ei wneud o dan yr amgylchiadau.

Un cyfyngiad ar **adran 76** yw na all y diffynnydd ddibynnu ar gamgymeriad meddw felly, os bydd yn gweithredu mewn hunanamddiffyniad oherwydd ei fod yn feddw, does dim amddiffyniad.

Gweithgaredd 2.23 Hunanamddiffyniad, rhagymosodiad neu rym gormodol?

Achos	Ffeithiau	<i>Ratio decidendi</i>
R v Williams (Gladstone) (1987)	Roedd y diffynnydd wedi ymyrryd pan welodd bobl oedd yn edrych fel pe baen nhw'n ymladd â'i gilydd. Dywedodd ei fod yn blismon, a cheisiodd arestio un ohonyn nhw. Mewn gwirionedd, roedd un o'r bobl newydd ymosod ar fenyw, ac roedd y llall yn ceisio ei arestio. Cafodd y diffynnydd ei erlyn am ymosod ar y dioddefwr.	Roedd y diffynnydd yn credu o ddifrif, ac mewn camgymeriad, a gallai'r gred honno fod yn rhesymol neu beidio.
Attorney General's Reference (No 2 of 1983)	Yn ystod terfysgoedd, cafodd siop y diffynnydd ei thargedu dro ar ôl tro gan ladron. Arhosodd y diffynnydd yn y siop dros nos i baratoi ei fomiau petrol ei hun i'w defnyddio yn erbyn y lladron.	Penderfynodd y llys nad oes rhwymedigaeth i aros nes eich bod chi o dan fygythiad ar y pryd. Mae rhagymosodiad yn cael ei ganiatáu fel rhan o hunanamddiffyn.
R v Clegg (1995)	Roedd milwr oedd ar ddyletswydd ger safle rheoli yn ystod y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon wedi ceisio atal car oedd yn nesáu ato. Pan yrrodd y car i ffwrdd yn gyflym heibio'r safle rheoli, saethodd ato a lladdodd un o'r teithwyr.	Roedd y diffynnydd wedi tanio ei ergyd olaf, sef yr un a laddodd y teithiwr, pan oedd y car wedi stopio bod yn fygythiad. Felly, roedd defnyddio grym marwol yn ormodol o dan yr amgylchiadau.
R v Martin (Anthony) (2002)	Roedd y diffynnydd yn byw ar fferm unig ac roedd wedi dioddef sawl bwrghleriaeth. Cafodd ei ddeffro yn y nos gan bobl yn torri i mewn a saethodd atyn nhw wrth iddyn nhw redeg i ffwrdd.	Ar y sail bod y lladron yn ffoi o leoliad y drosedd, doedden nhw ddim yn fygythiad uniongyrchol erbyn hynny ac felly roedd y defnydd o'r gwn yn ormodol.

2.3 Cwestiynau cyflym

1. Dylid rhagdybio bod y diffynnydd yn gall, oni bai ei fod yn gallu profi, ar adeg y drosedd:
 - a. ei fod yn gweithredu o dan y fath reswm diffygiol
 - b. wedi ei achosi gan afiechyd meddwl
 - c. nes nad oedd yn gwybod beth oedd natur neu ansawdd y weithred; neu, os oedd yn gwybod y pethau hynny, nad oedd yn gwybod bod yr hyn roedd yn ei wneud yn anghywir.
2. Yn *R v Quick*, cafodd y cyflwr ei achosi gan ffactor **allanol**, sef cyffur inswlin. Felly, roedd y diffynnydd yn gallu dibynnu ar amddiffyniad awtomatiaeth yn unig, ac **nid** ar orffwylledd. Yn *R v Hennessy*, barnodd y barnwr fod y cyflwr wedi cael ei achosi gan ffactor **mewnol**, sef diabetes. Felly, dylai'r diffynnydd fod wedi dibynnu ar amddiffyniad gorffwylledd ac **nid** awtomatiaeth.
3. Mae awtomatiaeth fel amddiffyniad yn annhebygol o fod ar gael os yw'r cyhuddedig wedi achosi'r awtomatiaeth ei hun, er enghraifft ar ôl yfed alcohol neu gymryd cyffuriau. Defnyddir achosion *R v Bailey (1983)* ac *R v Hardie (1984)* i ddangos hyn.
4. Yn gyffredinol, os yw rhywun yn meddwi o'i wirfodd ac yna'n cyflawni trosedd, does dim amddiffyniad. Mae meddwdod yn berthnasol wrth benderfynu a oes gan y diffynnydd y *mens rea* gofynnol ar gyfer y drosedd. Os nad oes gan y diffynnydd y *mens rea* gofynnol oherwydd ei gyflwr meddw, efallai na fydd yn euog; fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar bennu a oedd y meddwdod yn wirfoddol neu'n anwirfoddol, ac a yw'r drosedd dan sylw yn drosedd bwriad penodol neu fwriad sylfaenol.
5. Yn ôl *a3 Deddf Cyfraith Trosedd 1967*, mae hunanamddiffyn yn amddiffyniad statudol. Mae'n nodi: 'Gall rhywun ddefnyddio unrhyw rym sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau i atal trosedd, neu er mwyn cynorthwyo mewn ffordd gyfreithlon i arestio troseddwr neu'r rhai sy'n cael eu hamau o fod yn droseddwr, neu unigolion sy'n rhydd yn anghyfreithlon.'
6. Mae gorfodaeth drwy fygwth yn golygu bygwth y diffynnydd yn uniongyrchol i gyflawni trosedd neu, fel arall, wynebu marwolaeth neu anaf personol difrifol neu anaf difrifol i rywun arall. Mae gorfodaeth amgylchiadau yn golygu amgylchiadau allanol sydd yn fygythiad difrifol ym marn y diffynnydd.
7. Roedd y diffynnydd wedi gyrru er cael ei wahardd rhag gyrru. Honnodd iddo wneud hyn ar ôl i'w wraig fygwth lladd ei hun oni bai ei fod yn gyrru eu mab i'r gwaith. Roedd hi wedi ceisio lladd ei hun yn y gorffennol, ac roedd y mab yn hwyr i'r gwaith. Ofnai hi y byddai'n colli ei swydd oni bai fod ei gŵr yn mynd ag ef. Plediodd Martin yn euog i yrru dan waharddiad, ar ôl i farnwr y treial benderfynu nad oedd amddiffyniad gorfodaeth amgylchiadau ar gael iddo. Ar apêl, dilëwyd ei euogfarn, gan y dylai amddiffyniad gorfodaeth amgylchiadau fod wedi bod ar gael iddo. Doedd dim ots bod y bygythiad o farwolaeth yn deillio o hunanladdiad yn hytrach na llofruddiaeth.
8. Rhaid i lefel y grym a ddefnyddir gan rywun i'w amddiffyn ei hun neu rywun arall fod yn rhesymol. Os yw'r grym a ddefnyddir yn ormodol, bydd yr amddiffyniad yn methu. Mae'r grym y gellir ei ddefnyddio ar gyfer hunanamddiffyn, amddiffyn rhywun arall neu atal trosedd wedi'i nodi yn *a76 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008*. Y ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu a gafodd y grym ei ddefnyddio'n rhesymol dan

yr amgylchiadau yw tystiolaeth bod rhywun wedi gwneud yr hyn roedd yn ei ystyried, yn onest ac yn reddfol, yn angenrheidiol at ddiben dilys yn unig, mae hynny'n dystiolaeth gref mai camau rhesymol yn unig a gymerodd yr unigolyn at y diben hwnnw. Os oes tystiolaeth bod yr unigolyn yn credu 'yn onest ac yn reddfol' bod lefel y grym yn rhesymol i amddiffyn ei hun neu rywun arall, neu i atal trosedd, mae hynny'n dystiolaeth gref bod y camau a gymerwyd yn rhesymol dan yr amgylchiadau. Ond os cafodd y grym ei ddefnyddio ar ôl i'r perygl ddod i ben (e.e. i ddial neu i dalu'r pwyth yn ôl), nid yw'r amddiffyniad hwn ar gael.

9. Mewnol.
10. Mae'n rhaid i lysoedd ystyried difrifoldeb y niwed gafodd ei figwth i'r cyhuddedig, yn ogystal ag ymddygiad troseddol y cyhuddedig. Wrth benderfynu a ddylai'r amddiffyniad lwyddo, dylai'r rheithgor ddefnyddio prawf dau gam:
 1. **Prawf goddrychol:** A oedd y diffynnydd yn teimlo bod rhaid iddo weithredu fel y gwnaeth oherwydd bod ganddo sail resymol dros gredu y byddai'n cael ei ladd, neu'n cael anaf personol difrifol?
 2. **Prawf gwrthrychol:** A fyddai unigolyn sobr, o bendanrwydd rhesymol ac â'r un nodweddion â'r diffynnydd, yn ymateb fel gwnaeth y diffynnydd?